

ECO'R WYDDFA

Rhif 140

Hydref 1988

Pris 20

RHEDWR RHYNGWLADOL



Mae'r rhestr o bobl o Fro'r Eco sy'n cynrychioli Cymru mewn rhyw gamp neu'n gilydd, bellach, yn faith iawn.

A'r mis hwn rydym yn dwyn i'ch sylw un ychwanegiad i'r rhestr honno - sef Gwynfor Owen o Lanrug. Mae Gwynfor yn wyneb cyfarwydd i bawb sydd wedi ymddiddori mewn pêl-droed lleol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Yn ddiweddar mae wedi canolbwyntio ar redeg ac wedi ennill llawer o anrhydeddau. Trowch i'r dudalen gefn am y stori'n llawn.

APÊL

la un arall! Bydd yn rhaid inni gael Trefnydd Plygu'r Eco. Da chi, cysylltwch ag unrhyw un sydd ar y rhestr ar dudalen 2

EISTEDDFODAU

Mae eisteddfodau pentrefi'r fro ar y trothwy. Felly, drefnwyr, gnewch yn saff o gael benthyg camerau'r Eco i dynnu lluniau'r prif ddigwyddiadau a'r enillwyr.

YMDDYGIAD YN ACHOSI PRYDER

Mae ymddygiad "annerbiniol" rhai o blant ac ieuencid un o bentrefi bro'r Eco wedi ei ddwyn i sylw yr Aelod Seneddol ac wedi gorfodi cynghorwyr lleol i alw cyfarfod cyhoeddus i wyntyllu a cheisio datrys y broblem.

Pan gynhaliodd Dafydd Wigley gymorthfa ym Methel yn ddiweddar derbyniodd gwynion niferus gan y trigolion "ynglyn ag ymddygiad llafnau ifanc, sy'n amlwg yn achosi problem i bensiynwyr yno."

Cwynai rhai o bensiynwyr Stâd Bro Rhos am dri pheth penodol:-

1. Bechgyn yn curo ar eu ffenestri, a hynny, fel arfer, wedi iddi dywyllu.
2. Y modd y mae'r llafnau yn defnyddio' llwybr tu cefn i Fro Rhos fel toiled.
3. Y modd y mae'r meinciau sydd wedi ei darparu ar gyfer yr

henoed wedi cael eu difrodi dros gyfnod o amser.

Mae Cyngor Cymuned Llanddeiniolen wedi pryderu am y math yma o ymddygiad yn y gorfennol ac wedi gresynnu fod carfan fechan, mae'n debyg, yn ymddwyn yn y fath fodd tuag at yr henoed.

Cefnogwn ninnau yn yr Eco drigolion Bethel yn eu condemnad o'r bechgyn hyn sydd mor amharchus â neilltuo trigolion hyn eu pentref fel targedau. Cynhelir y cyfarfod cyhoeddus nos Lun, Hydref 10. Gweler llythyr y cynghorwyr cymuned ar dudalen 2.

CYTGORD DIOLCH A CHROESO



Un o bobl ifanc y fro sydd wedi penderfynnu cynnig ei hegri er lles ei chymdeithas yw Bethan Parry, Ael y Bryn, Tanycoed.

Croesawn Bethan fel aelod newydd o dîm Eco'r Wyddfa a diolchwn iddi am ymgymeryd â'r gwaith pwysig o fod yn ohebydd yn Nhanycoed. Hi yn sicr yw ein gohebydd ieuengaf a braf ei gweld yn cymeryd yr awennau o ddwylo un o'n gohebwyrr mwyaf profiadol.

Wrth groesawu Bethan, diolchwn i Mrs Megan Humphreys am

ei hadroddiadau unigryw a'i ffyddlondeb i'r Eco - a hynny o'r rhyfyn cyntaf, record da iawn wir.

Bydd Miss Humphreys, yn ystod yr ychydig rifynnau nesaf o'r Eco yn siwr o roi Bethan ar ben ffordd. Braf yw gwybod, yn enwedig o ystyried y stori uwchben hon, fod cytgord rhwng yr ifanc a'r henoed wedi'r cyfan, ym mro'r Eco.

ECO'R WYDDFA

RHIF 140
HYDREF 1988

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas,
Bron-y-Nant, Pontrhyallt, Llanrug.
(C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION PENTREFI:
Nant Roberts, 'Arwel', Pontrhyallt
(870760)

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd
Evans, Sycharth, Penisarwaun
(Llanberis 872407)

DYDDIADUR Y MIS: Mrs Olwen
Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug.
(Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFYDD: Gwyndaf Jones,
60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669).
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug. (C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug. (C'fon. 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed. 870580.

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen. (Caernarfon 3536)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glarafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W.O. Williams 6 Rhyd
fadog, Deiniol (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D.J. Thomas, 8 Maes
Eilian. (870773)

LLANBERIS: Iola Sellers, 13 Dôl
Elidir, Llanberis.

LLANRUG: Mrs Gillian Morris,
Annedd Wen, Tal-y-bont.
(Caernarfon 76075)

NANT PERIS:

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth, (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Bethan Parry,
"Ael y Bryn."

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU HYDREF 27
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH
HYDREF 18
os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

DIOLCH I BOBL DEINIOLLEN A'R ARDAL

Annwyl Gyfeillion,

Carem, trwy gyfrwng yr Eco,
ddatgan ein diolch fel teulu, am y
cardiau a'r anrhegion a gawsom
ar ein hymadawiad â'r ardal yn
ddiweddwr wedi cyfnod o ddeng
mlynedd.

Yr un pryd diolchw'n am y modd
y derbyniwyd ni gennych ar y
dechrau. Anodd yw credu bod
deng mlynedd wedi mynd. Buan
iawn y daethom i edrych ar
Ddeiniolllen fel 'adref'.

Diolchw'n hefyd am bob cymorth
a gawsom fel teulu ar adegau o
brofedigaeth. Mawr hyderwn ein
bod ninnau wedi gallu eich
cynorthwyo chwi ar adegau cyf-
felyb.

Er inni symud ardal byddwn yn
dal â diddordeb mawr yn yr hyn
fydd yn digwydd acw ac yn sicr yn
dilyn hynt a helynt yr ifanc. Fel y
gwelwch wrth edrych ar ein
cyfeiriad bydd yr ardal yn fynych
iawn ar ein gwefusau!

Yn gywir iawn,
Trefor, Miriam, Dewi a Dyfrig
Lewis

Elidir
6 Wynnstay Road
Hen Golwyn
Clwyd

APÊL CYMDEITHAS PADARN

Annwyl Olygydd,

Er na wyddom yn hollol bendant
wrth baratoi y llythyr hwn, ymd-
dengys mai yn eu cyfarfod nesaf
ar nos Fercher - Hydref 5ed yng
Nghaernarfon am 6.30 y bydd
Pwyllgor Cynllunio Cyngor
Dosbarth Arfon yn trafod cais
cynllunio cynllun arfaethedig Glyn
Rhonwy.

Yng nghwyneb hyn hoffem
annog PAWB sydd yn gwrth-
wynebu'r cynllun i fod yn bresen-
nol yn y cyfarfod yn Cwellyn,
Caernarfon ar y noson dan sylw.
Mae'n hanfodol bwysig bod
cymaint ohonoch ag sydd bosibl
yn gallu bod yn bresennol yn y
cyfarfod fel y gallwn ddangos i'r
Pwyllgor Cynllunio pa mor wrth-
wynebus yw yr ardal i'r datblygiad
niweidiol hwn.

Yn ychwanegol at hyn mae'n
bwysig bod pob cymdeithas a
mudiadau lleol yn mynd ati yn
ddiymdroi i anfon llythyrau at
Gyngor Arfon yn mynegi eu
gwrthwynebiad i'r datblygiad.
Eisioes mae'n dda gennym ddeall
bod nifer o gymdeithasau wedi
gwneud hyn. Buddiol hefyd fyddai
i BAWB - yn unigolion a chymdei-
thasau i anfon llythyrau at y dat-
blygwyr eu hunain yn dweud nad
oes croeso i'r datblygiad sydd
ganddynt dan sylw ar ein cyfer.

Eu cyfeiriad yw: Leading Leisure
Ltd, Briton House, Briton Street,
Southampton.

Fel Cymdeithas Padarn 'rydym
yn ddiolchgar iawn ac wedi cael
ein calonogi yn fawr gan ymateb
a chefnogaeth brwd bro Echo'r
Wyddfa i'n hymdrech i wrth-
wynebu y datblygiad yma sydd
heb amheuaeth yn mynd i ddin-
istrio Cymreictod Llanberis a'r
cylich yn llwyr. Ni allwn fforddio i
hyn ddigwydd ac i sicrhau hynny
mae'n rhaid gweithredu heddiw.
Gall yfory fod yn rhy hwyr.

Cofiwch y dyddiad a daliwch ati
i sgwennu.

Llawer o ddiolch,

Yn gywir iawn,

Glyn Tomos.

Cadeirydd.

DYDDIAD CYWIR Y LLUN

Annwyl Syr,

Sylwais fod Mr Guto Jones, 51
Pentre Helen, Deiniolllen wedi
gwneud camgymeriad yn nyddiad
y darlun yn Eco'r Wyddfa (Medi) o
Adran Cymorth Cyntaf St Ioan yn
gwrsyllu yn Neganwy. Awst
1954 yw'r dyddiad cywir ac nid
1940.

Rwy'n cofio pawb yn y darlun -
rhaf o Ddeiniolllen, Dolgarrog,
Penmaenmawr, Glasinfryn,
Caernarfon, ac o Lanberis yr
annwyl ddiweddar Hugh Owen (y
trydydd o'r chwith yn sefyll yn y
rhes ganol) a'r ddiweddar
Catherine Gillespie yn sefyll yn y
rhes uchaf ymysg staff y gegin,
ysgol Deganwy.

Rwyf innau'n sefyll yn y rhes
ganol - y cyntaf o'r chwith.

Yr eiddoch yn gywir iawn,

John Wrigley.

Brithdir

9 Pen Lon

Porthaethwy

Sir Fôn

APÊL YSBYTY PLANT GREAT ORMOND STREET

Annwyl Olygydd,

Bu Ysbyty Great Ormond Street,
Llundain, o fendith amhrisiadwy i
blant claf Cymru, fel o wledydd
eraill Prydain. Pob blwyddyn
rhoddir triniaeth i 9,000 o mewn-
gleifion a 60,000 o gleifion allanol,
a bydd eich darllenwyr yn gyfar-
wydd a'r apêl i ddatblygu'r Ysbyty
sy'n anelu at darged o £30,000.

Tybiaf y bydd rhieni â phlant
sy'n ymwybodol o waith anghy-
goel y staff yn Great Ormond
Street, yn awyddus i helpu'r Apêl.
Gosodwyd nod o £50,000 yng
Nghwynedd a chynhaliwyd cyfar-
fod i lansio'r apêl nos Wener, 23
Medi am 7.30 yng Nghwesty'r
Castell, Bangor. Anerchir gan Dr
Paddy Vincent, trefnydd yr Apêl.

Gall y rhai ohonoch a fethodd

ddod ar y noson, ond sydd yn
awyddus i helpu'r Pwyllgor apêl
dros y 12 mis nesaf, anfon neges
ataf a byddaf yn falch o gael eu
cymorth.

Gall eraill, nad ydynt mewn
sefyllfa i helpu trefnu'r apêl, serch
hynny, anfon cyfraniadau ariannol
d/o Cronfa Apêl Great Ormond
Street, Banc y Midland,
Caernarfon. Mae'r Ysbyty unigryw
hon yn haeddu ein cefnogaeth a
mawr obeithiaf y bydd ymateb
hael gan bobl Gwynedd i'r Apêl.

Yn gywir iawn,
Dafydd Wigley AS
Cadeirydd yr Apêl yng
Nghwynedd,
21 Penlllyn,
Caernarfon,
Gwynedd.

CYFIEITHIAD

Annwyl Olygydd,

'Para alguien muy especial en
su Cumpleaños'

'I rhywun arbennig iawn ar ei
ben-blwydd'

Dyma fy ymdrech i. Mae 46 o
flynyddoedd wedi mynd heibio er
pan y bum yn defnyddio
Sbaeneg.

Yn gywir,
W A Jones
Y Dalar Deg
Llanrug

Diolch hefyd i Mr Ralph Jones o
Llanberis am roi inni yr un cyfieithi-
ad dros y ffôn o'i waith yn Lerpwl.

CONSYRN AM YMDYGIAD IEUENCTID BETHEL

Annwyl Syr,

Fel yn nifer o bentrefi gwledig
Arfon erbyn hyn, mae ymdygiad
annerbiniol ieuenctid yn codi ei
ben ym Methel unwaith eto. Y prif
dargedau yw'r henoed - y rhai y
dylsid eu parchu yn ein cymdei-
thas. Fel y gwelir yn y llythyr gan
yr A.S. mae enghreifftiau o ymd-
dygiad afiach iawn yng nghyffini-
au Bro Rhos. Fel cynghorwyr lleol
rydym wedi cysylltu droeon ac
uchel swyddogion yr heddlu yng
Nghaernarfon. Yn amlwg, ni cheir
plismon llawn amser i'r pentref -
er fod ty heddlu pwrpasol yn y
pentref. Addawodd yr heddlu i
heddwys y Felinheli alw ym
Methel ar ei 'rownds', ond yn
amlwg prin iawn ydy'r adegau
hyny. Mae tref Caernarfon yn
mynnu gwasanaeth y plismyn
gwledig am gyfran helaeth o'u
'shift'.

Têg nodi mai carfan fechan o'r
ieuenctid sy'n dwyn anfrï ar y
gymdeithas. Yr unig garfan y gall-
wn apelio atynt yw rhieni y bobl
ifanc. Rhaid iddynt gymeryd y
cyfrifoldeb dros ymdygiad eu
plant. Y tristwch yw, na allwn
ddibynu ar rai o'r rhieni hyn.

I'r perwyl hwn, fe gynhelir cyfar-
fod cyhoeddus yn y Neuadd
Goffa, nos Lun, Hydref 10fed
am 6.45 pm. Taer erfynir am
gefnogaeth gref o'r pentref - o
bob oed - fel y gellir cael CYFAR-
FOD ADEILADOL. Y mae'r brob-

Llythyrau (parhâd)

Iem yma wedi llusgo ymlaen yn rhy hir - ac y mae dyletswydd ar y pentref cyfan i chwarae rhan yn ei ddatrys.

Yr eiddoch yn gywir
Dewi Rowlands
Richard Llwyd Jones
Cynghorwyr Cymuned
Y Ddol
Bethel

APÊL YMCHWIL Y GALON

Cynhelir Noson Goffi gan Gangen Caernarfon a'r Cylch, Apêl Ymchwil y Galon, yng Ngwesty'r Royal, Caernarfon nos Iau, Hydref 6ed, 1988 o saith o'r gloch ymlaen.

Yn ystod y noson bydd Cadeirydd y Gangen, y Cynghorydd Miss M Richards, yn cyflwyno siec am £5,000 i Mr Alan Ware, y Trefnydd dros Glwyd a Gwynedd, hefyd mae arian wedi ei roi tuag at brynu yr ail beiriant calon (defibrillator) ar gyfer ei ddefnyddio gan wyr Ambiwylans Caernarfon. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i'r cyhoedd am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.

CARDIAU NADOLIG APÊL Y GALON

Mae cardiau Nadolig, yr elw tuag at Apêl y Galon, ar werth yn awr gan Mrs Mai Parry, 2 Bryn Heli, Ffordd Glanffynnon, Llanrug. Ffôn: Caernarfon 4385.

arloesol yn llawn ddefnyddio'r lleoliad i greu stori rymys berthnasol i bob ardal drwy'r wlad.

Ysgrifennwyd y sgript gan Cefin Roberts a Valmai Jones, y Gerddoriaeth gan Gareth Glyn. Cynlluniwyd y set gan Emyr Morris-Jones. Cefin Roberts sy'n cyfarwyddo.

Yr actorion fydd Iris Jones, Stewart Jones, Valmai Jones, Merfyn Pierce Jones a Huw Garmon. Mae Merfyn a Huw yn gweithio fel actorion proffesiynol am y tro cyntaf.

Bydd holl elw gwerthiant y rhaglenni yn cael ei gyfrannu at Apêl Llifogydd Bangladesh.

Nid yw'r cwmni, hyd y gwyddom, yn dod i fro yr Eco y tro hwn. Felly dyma wybodaeth ynglyn â'r manau agosaf a manylion am docynau.

Capel Pendref Bangor: Nos Fawrth, Hydref 18fed am 7.30pm. Siop Lyfrau Cymraeg Pendref, Bangor 362676; Bara Caws,

Bangor 355579.

Capel Mawr, Porthaethwy: Nos Fercher, Hydref 19eg am 7.30pm. Y Parch Harri Owain Jones, Porthaethwy 715402.

Capel Salem, Caernarfon: Nos Fawrth, Hydref 25ain am 7.30pm. Eleri Lovgreen, Caernarfon 4314.

Capel Jerlwsalem, Bethesda: Nos Fercher, Hydref 26ain am 7.30pm.

Goronwy Evans, Bethesda 600887; Linda Brown, Bethesda 601526.

Capel Siloam, Bontnewydd: Nos Sadwrn, Hydref 29ain am 7.30pm.

J Elwyn Williams, Caernarfon 4626; Geraint Jones, Caernarfon 3422; S Breese, Caernarfon 2132.

Capel Bethel, Penygroes: Nos Iau, Tachwedd 10fed am 7.30pm.

Elwyn Parry, Penygroes 880047; Maldwyn Parry, Penygroes 881221.

RHODDION:£3: Di-enw, Dinorwig
£2: Mr a Mrs J. Humphreys, Caer Maen, Tanycoed

SALEM ar SÊL



YN TEITHIO HYDREF 18^{ed} ~ TACHWEDD 19^{ed}

GLYN: DIOL ISIOR SÊT 'NA?

SAER: BE SY' MOR ARBENNIG YN HONNA 'LLY...?

GLYN: FY HEN SÊT I YDI HI... HEN SÊT Y TEULU... AR HONNA DWI 'DI ISTA TÂLU BETH
MUDRIL O WEDDIA... CANNODD O GYFARFODYDD FREGETHU A CHYMANFACEDD...
GŪN I HAWL FDESOL AR Y SÊT 'NA.

SAER: SGYNNON NI HAWL AR AFFLIW O DDIM AR YR HEN DDAEAF 'MA... DYNA YDI FWTI O.

GLYN: PA HAWL SGYNNOCCHI ARNI 'LLY?

SAER: YR UNIG HAWL SYN CYFRIN DIWEDD 'TE WASHI... HAWL GYFREITHIOL...
'SA TI LECIO GWELD Y RISIT?

Mae Bara Caws wrthi yn brysur ar hyn o bryd yn paratoi eu cynhyrchiad diweddaraf. Bydd taith yr Hydref yn cychwyn y 18fed o'r mis.

Mae'r cyflwyniad sy'n dwyn y teitl 'Salem ar Sêl' yn cael ei gyflwyno mewn 26 o Gapeli o gwmpas Cymru. Canolbwynt y ddrama ydi hanes capel yn cau a'r sgil effeithiau i'r fro. Penderfynwyd defnyddio y set fawr er mwyn manteisio ar naws unigryw capel.

Bydd yn gyflwyniad gwahanol ag

Gwesty Dolbadarn LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser gan Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff.

STORM DRYDANOL DDIWEDD AWST



Dyma'r hyn welodd ffotograffydd yr Eco wrth bwyntio'i gamera dros Fethel at Ynys Môn. Llun arall ar dud. 5.

CYMDEITHAS HANES BRO ECO'R WYDDFA Cymdeithas Ddifyra'r Fro

Cyfarfod fel arfer ar y drydedd nos Fercher yn y mis yn Amgueddfa Gogledd Cymru (Oriel Eryri), Llanberis am 7.15 pm. Am raglen lawn dewch i'n cyfarfodydd neu gysylltwch â'r Ysgrifennydd Maurice Jones, Meillionen, Cwm-y-Glo, Ffôn: Llanberis 870466
Tâl Aelodaeth:- Teulu £5, Unigolion mewn gwaith £3, Eraill £1
Hydref 19 Amgueddfa Gogledd Cymru (Oriel Eryri) 7.15 pm
Darlith: "Troseddwy'r a Misdimanars yn Oes Elisabeth" gan Nia Watcyn Powell

CÔR CHWAREL DINORWIG 1949



Llun o Gôr Chwarel Dinorwig 1949, arweinydd Peleg Williams, trwy law Mrs Maggie Ll Jones, Caernarfon. Mae ei brawd Emrys Roberts, gynt o Ddinorwig, yn eistedd yn y rhes flaen, y 9fed o'r chwith. Mae'n siwr fod yma wynebau eraill hefyd sy'n adnabyddus i ddarllenwyr yr Eco.

DEINIOLEN

GOHEBYDD: W O Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

GAIR O WERTHFAWROGIAD: Dymuniad y rhai a dderbyniodd y menynd rhad yw cael diolch o galon i'r tri cyfaill a ymgwymerodd â'r gwaith o'i nôl i Dalysarn, ac wedyn ei ddosbarthu i'n cartrefi. Gorchwyl nid bychan, ac amhosibl heb gar, ond trwy garedigrwydd diymhongar Hughie Wyn Griffiths, Alun Wyn Evans a Robert Evans, cwblhawyd y gwaith yn brydlon a diffwdan, a gwerthfawrogir eich llafur yn fawr iawn. Derbyniwch ein diolch diffuant.

Yn gywir, HJ

CLWB ELIDIR: Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o'r Clwb uchod ar y 6ed o Fedi ar ôl gwyliau'r haf. Etholwyd chwe chwaer ar y pwyllgor i gynorthwyo y chwiorydd Mrs Megan P Morris, Mrs Sally Lewis a Mrs Hannah J Thomas, sef Mrs Alwen Jones, Mrs Jennie Williams, Mrs Eirlys Ll Jones, Mrs J Eirlys Williams, Mrs Jane Jones a Miss Eileen Williams.

Rhodddwyd y te gan Mrs Megan P Morris, Mrs Sally Lewis a Mrs Hannah J Thomas. Enillwyd y raffl, rhoddedig gan Mrs Jennie Wyn

Williams, gan Mrs Idwen Thomas. **ANREHGU MRS MIRIAM LEWIS:** Ar ran Clwb Elidir, y mae Mrs Miriam Lewis, Llys Myfyr, yn cael ei anrhegu gan Mrs Mary Hughes, aelod hynaf y clwb, ar ei hymadawiad i Fae Colwyn.

Bu Mrs Lewis yn aelod hynod o weithgar i'r clwb. Pob bendith i chwi fel teulu yn eich cartref newydd.



SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan, Medi 5ed dan arweiniad Mrs J Eirlys Williams y llywydd. Darllenwyd y llythyr misol a chroesawyd aelodau newydd. Llongyfarchwyd Miss Wendy

Jones, merch Mrs Eirian Jones a Mr Arwel Williams, mab Mrs Nan Williams ar eu dyweddaiad.

Croesawyd y wraig wadd, sef Mrs Maureen Rhys a chawsom noson ddiffr iawn yn ei chwmni.

Rhodddwyd y te gan Mrs Eirlys Ll Jones a Miss Betty Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs Kathleen Davies a diolchwyd i'r wraig wadd gan Miss Moler. Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 5ed pryd y disgwylir Mrs Dilys Kisalu o Llanberis atom.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y gangen ar Fedi 19eg o dan arweiniad Mrs Buddug Jones, y Llywydd. Y gwr gwadd oedd y Rhingyll Derwyn Roberts, a chawsom sgwrs ddiffr iawn ganddo ar ddiogelwch i ferched.

Diolchwyd i'r gwr gwadd gan Betty W Davies ac enillwyd y raffl gan Mrs Peri Evans. Rhodddwyd y te gan Mrs G Jones a Mrs J C Hughes. Croesawyd saith o aelodau newydd atom yn gynnes iawn ac anfonwyd ein cofion at Mrs Dilys Hughes.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 17eg.

LLONGYFARCHIADAU i Eira Wyn ac Ian Jones, 40 Stryd Newydd, Caernarfon (gynt o Ddeiniolen) ar enedigaeth eu merch fach Kayleigh Louise, ar yr 8fed o Fedi. Wyres fach gyntaf Helen a David Wyn Jones, 3 Rhydfadog. Llongyfarchiadau hefyd i Mrs M Evans, Maes-y-dref, Clwt-y-Bont, ar fod yn hen nain am y tro cyntaf.

DIOLCH: Dymuna Mrs Ellen Williams a Buddug, 2 Y Bwthyn, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad â hwy yn y brofedi-gaeth o golli brawd ac ewythr annwyl yn ddiweddar, hefyd i gyfeillion am bob caredigrwydd tra bu Buddug ar ei gwyliau. Diolch yn fawr.

DIOLCH: Dymuna Rhian a Keith, Stryd Dinorwig, Caernarfon, ddiolch yn fawr iawn i bawb o fro'r Eco am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar enedigaeth eu mab bychan, Rhys Wyn.

DIOLCH: Dymuna Wendy Jones, 11 New Street, ddiolch i'w theulu a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a gafodd ar achlysur ei dyweddaiad â Gwynfor James, ac hefyd ar achlysur ei phen-blwydd yn un ar hugain oed.

DIOLCH: Dymuna Carys a Rolant, 7 Maes Gwylfa, ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur genedigaeth eu mab John Stephen. Diolch yn fawr iawn.

DIOLCH: Dymuna Eira Wyn ac Ian Jones ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chyfeillion yn yr ardal am yr anrhegion, cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniasant ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Kayleigh Louise. Diolch yn fawr i bawb.

DIOLCH: Dymuna Derek a Delyth, Llanrug ddiolch yn fawr iawn i bawb am yr holl garedigrwydd a'r haelioni a ddangoswyd iddynt hwy a'u merch Lowri yn ddiweddar.

OSMOND SHAW
DEINIOLEN

Gwerthu
a Thrwsio
Teledu Lliw Newydd
ac Fel Newydd
GWASANAETH
FFON 24AWR
LLANBERIS 870545

**CABS
THOMAS
DEINIOLEN**
Gwasanaeth 24 awr
Ffôn: Llanberis 871049

**CRIB
COCH**

Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon
76772

TRIN GWALLT I
BAWB O'R TEULU
GAN JEN

Ffoniwch neu galwch
i drefnu amser

Mae Lowri yn wyres i Mr a Mrs J Pritchard, 86 Pentre Helen ac yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Alderhey, Lerpwl.

Y SEINDORF: Llongyfarchiadau i'r Seindorf ar ennill y drydedd wobwr ym Mae Colwyn yn ystod y mis, ac hefyd i'r Seindorf leuenctid am gipio'r ail wobwr. Y gystadleuaeth nesaf i'r Seindorf fydd yn Pontins, Prestatyn ddiwedd Rhagfyr.

Dyma enillwyr y Clwb 200 am fis Medi: £20: (25) Megan Williams, Gaerwen; £15: (55) Ernest Jones, Porth y Gogledd; £10: (199) Terry Evans, 32 Stryd Newydd.

PLAID CYMRU
Bydd Talwrn y Beirdd yn cael ei recordio gan BBC Cymru yn Ysgol Gwaun Gynfi nos Fawrth, Hydref 11eg
Bydd y noson yn dechrau am 7 o'r gloch yn brydlon Croeso cynnes i bawb



Seindorf leuenctid Deiniolen ar y llwyfan ym Mae Colwyn.

SIALENS I'R BLAID DDILYN ARWEINIAD YR S.N.P.

Rhoddwyd sialens i Blaid Cymru gan ei Llywydd, Dr Dafydd Elis Thomas, i ddilyn arweiniad ymgyrchu Plaid Genedlaethol yr Alban.

Yn dilyn ymweliadau diweddar â'r Alban dywedodd Dr Thomas wrth Bwyllgor Rhanbarth ei etholaeth ym Mlaenau Ffestiniog, nos Iau, 22 Medi 1988, iddo gael trafodaethau gyda nifer o ymgyrchwyr yr SNP, Aelodau Seneddol San Steffar, a'r Aelod Seneddol Ewropeaidd, Mrs Winnie Ewing, a bod gwleidyddiaeth yn yr Alban yn awr yn ymddangos yn llawer mwy cyffrous na gwleidyddiaeth yng Nghymru.

Yn y polau piniwn dengys yr SNP 20 y cant cyson mewn cefnogaeth boblogaidd. Mae gwleidyddion o bob plaid, gan gynnwys o leiaf un Aelod Seneddol Toriaidd, a nifer o ymgyrchwyr y Blaid Ddemocrataidd, yn sôn yn agored am annibyniaeth i'r Alban o fewn Ewrop fel opshiwn gwleidyddol real iawn. Mewn polau piniwn diweddar mae 33 y cant yn gefnogol i annibyniaeth lawn i'r Alban, ffigwr nas gwelwyd ers y 70au.

Yn ychwanegol i hyn mae trafo-

daethau bywiog iawn yno ynglyn â datblygiadau diwylliannol yr Alban, ac mae'r awyrgylch yn un bositif gyda'r SNP yn gosod cywair y trafo-daethau.

Mae'n rhaid i ni gyfaddef nad yw'r un sefyllfa yng Nghymru. Nid ydym wedi llwyddo i greu trafodaethau gwleidyddol ar hyd y wlad, ac nid yw Plaid Cymru wedi llwyddo i ddenu cefnogaeth eang fel yr ymddengys y mae'r SNP yn ei denu.

Yn amlwg nid ydym am weld Cymru ar ôl mewn unrhyw ddatblygiadau a fyddai'n rhoddi blaenoriaethau pŵer gwleidyddol i'r Alban, os y digwydd hynny fe fyddai'n llawer iawn mwy anodd i gystadlu am ffynhonnellau ariannol oddi wrth Lywodraeth Prydain neu oddi wrth y Gymuned Ewropeaidd, ac i sicrhau bod Cymru yn elwa o fuddsoddiadau o'r tu allan a datblygiadau busnes newydd.

Mae'n rhaid i Blaid Cymru ehangu'r gefnogaeth ymhellach na'r aelodaeth bresenol, ac ardaloedd a chefnogaeth gref.

Mae angen i ni fod gyda'n chwaer-blaid, yr SNP, i sicrhau bod dau ben y

PWY YW'R RHAIN? GWOBR O £5 (I'R ECO!)



Pwy yw'r pedwar yma? Addawyd £5 o 'wobr' i'r Eco os anfonir enwau'r pedwar (ie, y ci hefyd!!) sydd yn y llun i unrhyw un o'r golygyddion.

GOLWG ARALL AR Y STORM DRYDAN



gyng rhair yn symud ymlaen gyda'n gilydd.

Yr wyf felly yn gofyn i'n holl ganghennau a'n rhanbarthau ar ddechrau blwyddyn wleidyddol newydd, ac yn ystod y cyfnod hwn o hyn i'r Gynhadledd yn y Drenewydd,

i asesu eu lefel gweithredu, gyda'r amcan ein bod yn adlewyrchu bywyd y gymuned mewn aelodaeth ac mewn apel, ac hefyd yn barod i gynrychioli ac amddiffyn buddiannau ein holl gymunedau yng Nghymru.

PYTHEFNOS RECORDIAU CYMRAEG

Bydd Uned Deithiol Sain y tu allan i Siop Boots ym Mangor ddydd Sadwrn, Hydref 8, ac ar y Maes yng Nghaernarfon y Sadwrn canlynol, Hydref 15. Gellwch ddefnyddio'ch ffurflen ffodus i gael gostyngiad ar newyddau a brynir gennych yn yr uned.

HYDREF 7 — 22, 1988

PYTHEFNOS

RECORDIAU CYMRAEG

BARGEN! BARGEN! BARGEN!

DEWCH Â'R FFURFLEN HON I

UNED SAIN A CHEWCH

OSTYNGIAD O 50c AR

UNRHYW GASET NEU RECORD

BARGEN! BARGEN! BARGEN!

SAIN • LLANDWROG • CAERNARFON • GWYNEDD
(0286) 831 111



AM FFENESTRI A DRYSAU U. P.V.C.

Dim Paentio
Dim Pydru
Dim Rhydu

Dim stumio
Dim trafferth
Dim ond ffonio...

CAERNARFON 2935 (Swyddfa)
neu LLANBERIS 870795 William Roberts


WYTHNOS UN BYD

CYMODI A'R DDAEAR

Yn ystod yr wythnos o Hydref 23ain hyd Hydref 30ain eleni, cynhelir yr hyn a elwir yn 'Wythnos Un Byd'. Pwyllgor Datblygiad Byd Cyngor Eglwysi Cymru sy'n gyfrifol am hybu gweithgaredd yr wythnos yng Nghymru, ac mae tri ar ddeg o wahanol fudiadau eglwysig yn cael eu cynrychioli. Pwrpas yr Wythnos yw rhoi cyfle i eglwysi a grwpiau eraill o bob math i ddod at ei gilydd i ddathlu a dysgu am achosion cyfiawnder, heddwch, yr amgylchedd a datblygiad.

Er i thema 'Wythnos Un Byd' gychwyn gyda'r Eglwysi, man cyfarfod yw bellach i bobl o gefndir gwahanol sy'n rhannu'r un mathau o gonsyrn am ein byd. Mae pobl o bob crefydd a phob credo'n cyfrannu yn y digwyddiadau ac yn eu cynllunio.

Gall unrhyw un gynllunio a threfnu 'Wythnos Un Byd' llwyddiannus. Holwch yn eich llyfrgell leol am grwpiau sydd o'r un tueddi-



adau, ac a fyddai yn fodlon ymuno â'r gweithgareddau.

Galwad am seibiant yn ein rhaib o'n cartref ni ein hunain yw diben

'Cymodi â'r Ddaear'. Chwilio am ddulliau o gynilo yn lle gwario, o barchu yn lle ecsplotio, o rannu yn lle cystadlu. Mae dewis.

CEUNANT

Gohebydd: Ifan Parry, Morwel (Waunfawr 321)

DYMUNIADAU GORAU i Mr Frances Guy sydd wedi symud o Bryn Tirion i fyw at ei fab a'r teulu yn Llangefni.

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Anwen Jones, Gwelfor ar fod yn nain am y tro cyntaf. Ganwyd mab, Iwan Arwel, i Carys ac Arwel Griffith, 65 Glan Seiont, Caernarfon ar Awst 26ain.

CLWB ERYRI

Nos Wener, Hydref 7fed, cynhelir cyfarfod cyntaf Clwb Eryri yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis, pan y dangosir y ffilm 'Yr Etifeddiaeth' a wnaed cyn y rhyfel yn dangos gwahanol agweddau o fywyd cefn gwlad yn Llyn ac Elfionydd. Awdur y sgript oedd John Roberts Williams ac ef fydd yn rhoi cefndir sut yr aed ati i wneud y ffilm hanesyddol hon. Llywyddir gan Dr E Lloyd Evans, llywydd y tymor, a bydd angen ethol aelod newydd yn y cyfarfod yn ogystal.

BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580

NSPCC: Dymuna Cangen Llanrug a'r Cylch o'r NSPCC ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd at Sêl Cist Car, Raffl a'r Daith Gerdded a gynhaliwyd ym mis Mehefin. Gwnaed elw o £701.39 at yr achos. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth.

SÊL CIST CAR: Fore Sadwrn, Awst 27ain, cafwyd sêl cist car yn y Cae Chwarae gyda'r elw yn mynd tuag at Apêl Eisteddfod yr Urdd Dyffryn Nantlle ac Arfon 1990. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i'r rhai hynny a gefnogodd y gweithgaredd mewn unrhyw fodd - yn rhoddion nwyddau, rhoddion ariannol unigol ac am bresenoldeb ar y cae. Enillwyr y raffl (yr oll o'r gwobrau yn rhoddedig gan aelodau'r pwyllgor) oedd: Bocs o ffrwythau: Mrs Helen Roberts, Llwyncoed Bach; Gwin: Mrs Mair Parry, Awelfryn, Brynsiencyn;

Bisgedi: Mrs Euronwy Roberts, 8 Trem Eilian; Gwin: Mr Eirwyn Williams, Llwyncoed; Bocs Siocled: Mr Nigel Day, 3 Rallt.

DYRCHAFIAD: Llongyfarchiadau i'r Arolygydd Mr Hugh G Roberts, mab yng nghyfraith Mr a Mrs Gwilym Hughes, Bryn Parc ar gael ei ddyrchafu yn Uwch Arolygydd yn Heddlu Gwynedd. Bydd Mr Roberts yn dechrau ar ei swydd newydd ym mis Hydref ym Mhencadlys yr Heddlu yng Nghaernarfon.

BEDYDD: Fore Sul, Medi 11eg, yng Nghapel MC Brynrefail, gyda'r Gweinidog yn gwasanaethu, bedyddiwyd Dylan Wyn, mab bychan Mr a Mrs Dennis Davies, Glanaber, Llanberis, brawd i Rhian ac wyr i Mr a Mrs Richard Wyn Evans, Ty'n Buarth. Dymuna'r rhieni ddiolch yn gynnes iawn i berthnasau a chyfeillion am eu

cyfarchion ac am yr anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genedigath Dylan Wyn.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfyddiad y mis nos Lun, Medi'r 19eg yn y Ffestri. Treuliwyd y rhan gyntaf o'r cyfarfod yn trafod llythyr y mis ac yna buwyd yn trafod cyfraniad y gangen i'r Sioe Grefft a Chynnyrch a gynhelir dan nawdd Grwp Gwryfai yn y Waunfawr ddydd Gwener, Medi 23ain. Roedd yn galonogol iawn cael addewid am tua chant o eitemau ar gyfer eu harddangos. Bydd y gangen hefyd yn cymryd rhan yn y Gymanfa Ganu dan nawdd Cymdeithas y Beiblau, Cangen Deiniolen a'r Cylch, a gynhelir yng Nghapel MC Brynrefail nos Sul, Hydref 2il. Nos Wener, Hydref 21ain bydd yr aelodau yn rhoi cyfraniad i'r Cyngerdd a gynhelir yn y Waunfawr dan nawdd Sefydliad y Merched.

Paratowyd lluniaeth y noson gan Mrs Pat Jones a Mrs Betty Owen. Rhoddwyd gwobr y mis gan Mrs Gwyneth Williams a'r enillydd

oedd Mrs Blodwen Hughes.

DYWEDDIO: Llongyfarchiadau i Miss Anita Jones, merch Mr a Mrs Ken Jones, Cae Coch, ar ei dyweddiad â Mr Steve Long, mab Mr a Mrs Geraint Long, Treetops, Hoddeston, Hertfordshire.

Gwasanaeth NEWYDD yn yr ardal!

**EMYR LL.
PARRY**
M.S.S.CH.
M.B.CH.A.

**CHIROPODIST
GWASANAETH
CARTREF**

57 Glanffynnon
LLANRUG
FFÔN (0286) 5754
(Gyda'r nos)

**WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL**

**GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR**

E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394

**AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A
RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...**



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 5175 77858

Beth am ddysgu
dreifio gydag

**YSGOL YRRU
BETHEL**

Cysylltwch â
Richard M. Hughes
42 Bro Rhos, Bethel
Portdinorwig
671009

Agor Ffiniau'r Gorffennol HEN BROCCER BACH GLOYW FY NAIN

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Ymddangosodd y llythrau canlynol yn yr Herald Gymraeg a'r Genedl, dydd Llun, Chwefror 6ed 1967.

'Mae'r Proccer yn y Morfa'
At y Golygydd
Syr,

Nid oeddwn wedi gweld ymholiad J R Morris, Bethel ynglyn â 'Hen Broccer Bach gloyw fy Nain' ond daliwyd fy sylw gan lythyr Megan Mai, Gwalchmai mewn atebiad iddo.

Fy nhad oedd Capten Griffith Jones, Langdale, Pwllheli. Yn ôl yr hanes sydd gennyf, hen daid fy nhad, yn Nefyn, oedd perchennog yr hen broccer, a gofnodir yn y gân.

Ymhen amser daeth y proccer i feddiant fy nhad, a bu yn ei gartref yn Langdale, Pwllheli, fel y dywedodd Megan Mai, am bum mlynedd a deugain.

Ar ôl i'm tad farw yn 1949 aeth mam i fyw efo fy chwaer yn Lerpwl, ac aeth a'r proccer hefo hi. Bu farw mam yn 1960 ac yna daeth y proccer yn eiddo i mi. Mae gennyf yn awr, ynghyd â'r hanes a'r gân, ym Morfa Nefyn.

Felly mae yr hen broccer bach yn ôl yn ardal Nefyn wedi bod oddi yno am dros hanner can mlynedd.

(Capten) J R Jones
Avallon
Morfa Nefyn

Y Gerdd

Mor felys atgofion y dyddiau
Cyn teimlo na gofid na cham,
Pan oeddwn ger Nefyn yn blentyn
Cysurus, ar aelwyd fy mam,
Pan oeddwn yn fachgen penfelyn,
A dwy foch goch iachus a chain,
Mor hoew a llawen y byddwn
Yn rhedeg i fwthyn fy Nain.

'Rol cyrraedd y bwthyn gwyngal-
chog

Cyfarchwn y teulu yn hy,
Ac yna awn ati i chwilio
A chwalu holl ddodrefn y ty.
Peth pennaf a ddenai fy sylw
A'r harddaf o'r cwbl o'r rhain,
A'r gorau i chwarae fy nghampau
Oedd proccer bach gloyw fy Nain.

Dwy flynedd ar bymtheg a deugain
Bu'r proccer yn loew a glân,
Yn sefyll fel milwr dewr galon
Yn ffyddlon wrth ochr y tân.

Mae nain heddiw'n gorwedd yn
dawel

A'r proccer, sy'n fychan a main,
Gan Gruffydd i gofio amdani -
Sef proccer bach gloyw fy Nain.

Tra byddaf fi byw ar y ddaear
Cei di, yr hen broccer, dy ran,
Os collais fy llong a fy eiddo
Mi'th ddygais di'n ddiogel i'r lan.
Ffyddlondeb sy'n ddrych ar dy
wyneb

A miwsig nefolaidd yw'th sain,
Ple bynnag y byddaf, boed
ddithau,
Hen broccer bach gloyw fy Nain.

Anfonwyd gan Mrs M Griffiths, Ty
Ddewi, Sir Benfro, ac eraill.

Ond beth am broccer Môn?

Syr,

Gair bach caredig atoch. Byddaf
yn derbyn yn wythnosol 'Yr Herald
Gymraeg' a 'Herald Môn' ac yn
cael pleser a mawr fwynhad yn eu
darllen.

Yr wythnos ddiweddaraf darllenais
am ryw frawd a fuasai yn caru
gwybod am y gân 'Hen Broccer
Bach Gloyw fy Nain', a phroccer
pwy ydoedd.

Adwaenwn yr hen wraig oedd yn
berchennog y proccer flynyddoedd
lawer yn ôl pan oeddwn gartref yn
ardal Bro Goronwy ac yn arfer
canu.

Euthunm i edrych amdani â
phedwar o'm hen ffrindiau ar
noswaith olau braf yn y gaeaf.
Enw yr hen wraig oedd Mrs M
Williams, Shop Uchaf,
Llanbedrgoch, Sir Fôn, ac mi
gefais gopi o'r gân ganddi. Lawer
gwaith y cenais i hi mewn gwa-
hanol gyfarfodydd yn Sir Fôn ac
yn Llundain yma. Wel, mae'r wraig
wedi marw ers llawer o flynyd-
doedd, ac mae dau o'r hen ffrindi-
au oedd yn mwynhau y noswaith

felys honno, sef Stanley Thomas
ac Evan Jones wedi cefnu ar fyd
amser i'r byd tragwyddol. Ond
mae un yn aros, sef Mr Herbert
Williams.

Carwn wybod oddi wrth Mr J R
Morris, Bethel a fu'n holi am y gân.

Felly mae'r stori sydd wedi ei
rhoi yn y papur yn wir, sef mai pro-
ccer Mrs E Williams, a'i mam cyn
hynny, ydoedd.

George Handel Williams
25 Leslie Park Road
East Croydon
Surrey.

Fedar rhywun ychwanegu at
hanes y proccer? Anfonwch air i
Llys Awen, Llanrug

Mollant i'r Fronfraith
Gwnaed yr englyn canlynol ar
fore Sul gan Trebor Mai.

Bore dydd Duw brydydd di-aill -
gyda

Gwawdiau pêr diadfail:
Ti a wnei mewn ty'n wiail,
Ryw Eglwys Dduw o'r glas ddail.

Clywch gennad cloch y gwanwyn -
foreu ddydd,

Yn gwefreiddio'r dyffryn:
Ei bregeth ar y brigyn
Yw, 'Mola Dduw yn aml, ddyn.'
Owain Peris

laith addfwyn y fronfraith ddiddig -
ddyry

Gerddoriaeth fawreddig:
Yn adlais ei mwyn odlig,
Urddir holl gyngherddau'r wig.
Clynog

Ar brênfrig tery Bronfraith
Odlau hoff mewn hyawdl iaith -
Swynol sain ei halaw sydd
Glysaf yn nheml y glaswydd, -
Yr awenog soprano
Ddigmarm wefreiddia'r fro,
Ac o adar y coedydd
Hon yw prima-donna'r dydd.

Machraeth

Chwibanogl wyd, uwchben
gwledydd - hudol

Odiaeth bronfraith ddedwydd;
Clywch! O binacl chwibanydd
Yn taro tant toriad dydd.

Dewi Hafesp

DRAENOG



Gwr pwy sydd ar 'diet' ond yn
bwyta llond bag o 'chips' cyn mynd
adra i salad?



FFERMWYR IFANC CAERNARFON

Yn ystod gwyli-
au'r haf bu nifer o aelodau'r clwb
yn brysur iawn. Cafwyd taith
gerdded nodedig lwyddiannus
iawn ar ddydd Sul, Awst 28ain.
Aeth y cerddwyr i fyny'r Wyddfa
ac yn ôl i Lanberis. Llwyddodd y
rhan fwyaf i gyrraedd y copa er
gwaetha'r tywydd diflas.

Ar y diwrnod canlynol aeth rhai
o'r aelodau i Ben Llyn i gymryd
rhan fel 'extras' yng nghyfres ddi-
weddaraf Jabas.

Cynhaliwyd Gwyl Chwaraeon
Clybiau Ffermwyr Ieuainc Cymru
yn Llanellwyr ar ddydd Sadwrn,
17eg o Fedi. Cynrychiolwyd Eryri
yng nghystadleuaeth pêl-rwyd dan
18 oed gan dîm o glwb
Caernarfon. Y tîm fu'n cystadlu
oedd Nicola Griffith, Rachel
Griffith, Helen Jones, Gwen
Jones, Nia Jones, Haf Owen,
Sioned Parry, Rhian Thomas a
Gail Warrington.

Ail gychwynwyd y tymor
newydd ar nos Fawrth, Medi'r
20fed gyda noson gymdeithasol i
groesawu aelodau hen a newydd.

Os oes unrhyw un dros 14 oed â
diddordeb mewn ymuno yn hwyl
gweithgareddau'r clwb, dowch
draw i Neuadd Goffa Bethel am
8.00 ar nos Fawrth neu cysylltwch
ag arweinydd y clwb, Myfanwy
Jones, Glan y Gors, Bethel, Ffôn:
6760071.

Emyr Jones

PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI


Cynnal Boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 3513



LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



DEWIS EANG O
WELYAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT
5000 LLATHEN SGWâr O GARPEDI
MEWN STOC - ALLWCH CHI
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn

AR GAU
SUL,
MERCHER.

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
BANGOR
Ffôn: (93) 714043
neu

Caernarfon 4520
edau, nodwyddau
ac ati mewn stoc

DINORWIG

Gohebydd: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian

STORMYDD: I bob ymddangosiad mae'r amser wedi rhedeg ymlaen yn gyflym er pan oeddwn yn ysgrifennu'r nodiadau ar gyfer diwedd Awst, a hynny'n dilyn yr egwyl a gawsom o fis Gorffennaf hyd ganol mis Awst. Er byrred yr amser y mae, serch hynny, yn gyfuriog o ddigwyddiadau. Fe glywsom am drychinebau fel gorlifiadau yn achosi colli bywydau, ac fe soniwyd am Bangladesh a Sudan gyda phlant ac oedolion yn dioddef oherwydd diffyg moddion cynhaliath, a rhai'n marw oherwydd newyn a gwendid gyda llywodraethau'r gwledydd bron yn ddiymadferth. Yn cyd redeg â'r rhain fe welir gormes a thrais yn amlwg. Ni allwn chwaith anghofio'r 'Corwynt Gilbert' yn y Caribi, Mecsico a Tecsas.

MARWOLAETH: Ddiwedd mis Awst fe ddaeth ton o dristwch i'r ardal o glywed am farwolaeth Mrs Katie Jones, gynt o Bryn Bella, Fachwen yn ysbyty Conwy. Priod oedd hi i'r diweddar Mr Griffith John Jones a mam Bobbie Wyn, Beryl a Wilfred. Yr oedd hithau wedi cyrraedd yr oedran teg o 91, ac fe gludwyd ei gweddillion i Eglwys Crist, Llandinorwig lle bu'r angladd ar ddydd lau, Medi 1af.

COFION: Mae Mrs Elizabeth Jones, 9 Maes Eilian hithau wedi ymsefydlu'n derfynol ym Mhlas Maesincla, Caernarfon, ac anfonwn ein cofion ati.

MARWOLAETH: Trist i ni a'i adnabu oedd clywed am farwolaeth y Parch William Clifford Davies, Gorseinon. Ar ôl cwrs yng Ngholeg y Bedyddwyr, Bangor, fe'i hordeiniwyd yn weinidog ar Sardis, Dinorwig a Libanus, Clwt-y-bont yn 1934. Ac yntau wedi gweld un genhedlaeth o blant yn yr eglwysi hyn ni theimlai fel aros i gychwyn cenhedlaeth arall, ac fe aeth oddi yma i Salem, Amlwch ac yn ddiweddarach fe aeth oddiyno i Gorseinon.

GWELLHAD BUAN: Fe hoffem ddymuno'n dda i'r cyfaill Mr Hugh Thomas, Bro Elidir sydd yn derbyn triniaeth law feddygol yn Ysbyty Gwynedd. Aed yr anhwylder yma heibio ar fyrder.

LLONGYFARCHIADAU: Pleser digymysg yn ogystal yw estyn ein llongyfarchiadau i Miss Marina Bryn Roberts, Ty'r Ysgol, ar ennill ohoni radd ym Mhrifysgol Bangor eleni, ac hefyd ar gael ei phenodi ar staff Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes. Pob hwylustod iddi i'r dyfodol ac i eraill o bobl ieuanc yr ardal.

CROESO: Fe ddaw'r melyn a'r chwerw i fywyd ardal a thra'n ffarwelio â rhai fe gawn yr hyfrydwch o groesawu Mr a Mrs David Griffiths i'r ardal. Maent yn hannu o Brixham, Swydd Dyfnaint, ac maent wedi dod i fyw i Creigle. Yr ydym yn hyderu y byddant yn setlo i lawr i fywyd cymdeithasol ein hardal, ac eisoes maent yn tystio

iddynt gyfranogi cryn dipyn o gyfeillgarwch ar ôl dod i'n mysg. Bydd awelon y mynyddoedd yn sicr o roddi adfywiad newydd iddynt, heb anghofio bod yr awelon hyn ar brydiau yn codi'n stormydd enbyd a chas, ond o drugaredd mae diwedd i bob storm ym myd anian - dyma wedi'r cwbl sy'n rhoi amrywiaeth mewn bywyd.

CYMDEITHAS ADDYSG YR OEDOLION: Bellach mae tymor y gymdeithas wedi cychwyn yn yr ardal. Maes arbennig y tymor eleni yw'r cyfieithiad newydd Cymraeg o'r Beibl - olynydd teilwng iawn i gyfieithiad gorchestol yr Esgob William Morgan o'r Wybrnant. Fe'n tywysir i'r maes diddorol hwn gan y Parch John Gwilym Jones, Bangor. Rwy'n sicr y byddwn yn elwa'n ddigamsyniol o fyfyrion arlwy a roddir ger ein bron. Ni ddylai neb sy'n dilyn y cwrs fod yn anwybodus o gefndir a chyfoeth arddull a chrefftwaith y cyfieithwyr cydwbybodol.

O gofio mai ardal fechan yw Dinorwig mae'n syn gymaint o weithgarwch arbrofol a geir o'i mewn. Darfu swm diwydiant trwm y chwareli ers blynnyddoedd bellach, ond fe chwiliodd yr ardalyr yn ddyfal am feysydd eraill i'w gweithgarwch.

Yr hyn sy'n peri mwyaf o bryder i ni yw sylweddoli bod nifer o'n ieuencid yn gorfod symud i ardaloedd eraill i sicrhau cynhaliath ac ymdeithio o'i hardaloeth eu hunain, ac er bod hynny yn cyfoethogi'r lleoedd yr ânt iddynt, y mae ysywaeth yn tlodi ardal eu mebyd. O na chaem y fentr i weld sefydlu gweithfeydd bychain cartrefol yn yr ardaloedd hyn a fu mor ddibynnol ar hen ddiwydianau mawr.

CYNGOR CYMUNED: Yn eu cyfarfod ar ddechrau mis Medi bu i'r Cyngor drafod sawl mater yn ymwneud â'r pentref. Penderfynwyd o blaid gofyn unwaith yn rhagor i Adran Prifffyrdd a Thrafnidiaeth y Cyngor Sir am weithredu buan i wella cyflwr pen

TAN-Y-COED

BEDYDD: Prynhawn Sul, Gorffennaf 17ain yng Nghapel Tan-y-coed a'r gweinidog, y Parch John Morris yn gweinyddu, bedyddiwyd Sofie Angharad, merch fach David a Nia Roberts, 18 Talybont.

Y tad a'r fam fedydd oedd Michael a Jean Roberts. Yr organyddes oedd Mrs Jane Humphreys.

LLONGYFARCHIADAU i Bethan Lewis Parry, Ael-y-Bryn, Tan-y-Coed ar ddathlu ei phen-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar.

DIOLCH: Dymuna Bethan ddiolch i'w theulu, ei ffrindiau a'i chymdogion am eu dymuniadau da a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd. Diolch yn fawr.

DYMUNIADAU GORAU i'r dyfodol i Richard William James Roberts, Prysgol sydd newydd offen cwrs tair blynedd llwyddiannus yng Ngholeg Amaethyddol Llanbadarn Fawr.

Enillodd Richard 'Diploma Cenedlaethol Amaethyddiaeth' gyda Chredyd. Llongyfarchiadau Richard.

HWYL FAWR i'r plant ysgol ar gychwyn blwyddyn newydd - Ysgol Feithrin, Ysgolion Cynradd ac Uwchradd a'r Colegau, ac eraill

efallai wedi derbyn swyddi.

Pob bendith i chwi, a llongyfarchiadau i'r rheini fu'n llwyddiannus yn eu arholiadau diwedd blwyddyn.

I'R COLEG: Ein dymuniadau da i Manon Llwyd Evans, Carwyn, fydd yn gadael cartref am y tro cyntaf y mis nesaf a chychwyn ar gwrs fel myfyrwraig yng Ngholeg Meddygaeth Prifysgol Cymru. Pob hwyl i Manon yng Nghaerdydd.

CROESO cynnes i'n plith i ofalwyr newydd Capel Tan-y-Coed, a'u dau fab bychan, Robin a Dafydd - Robin yn dair oed, eisoes wedi cartrefu'n hapus yn yr Ysgol Sul.

Dwy newydd ddyfodiaid eraill i'r Ysgol Sul yw Sara Salisbury Roberts a'i chyfnither Anna Salisbury Watterson, hwythau wedi cartrefu'n barod yn ein plith. Croeso iddynt hwythau ac i holl aelodau'r Ysgol Sul wedi'r gwyliau. **DIOLCHGARWCH:** Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant, o dan arweiniad y Parch John Morris, pnawn Sul, Hydref 16 am 2 o'r gloch.

Nos Lun Diolchgarwch am 7 o'r gloch, pregethir gan y Parch Gareth Maelor Jones. Croeso cynnes i bawb.

Gallt y Foel. Mae'r sefyllfa ynglŷn â'r rhan beryglus yma o'r Allt yn un sydd wedi creu pryder i'r pentrefwyr ers blynnyddoedd. Yn ychwanegol at hyn penderfynwyd tynnu sylw yr un adran at yr angen i dorri tyfiant gwair ar ochr y ffyrdd trwy Ddinorwig a Fachwen. Mae'n drist gweld nad yw y tyfiant ar hyd ochr ein ffyrdd yn cael ei dorri mor aml y dyddiau hyn. Hefyd galwyd am yr angen i glirio'r ffos tros ffordd i dai cyngor Bro Elidir. Mae'n bwysig bod y ffosydd yn cael eu clirio a'u glanhau os ydym am sicrhau na ddigwydd llifogydd eto.

CYSGODFAN BRO ELIDIR: Deallwn bod person, sydd yn dymuno aros yn ddi-enw, wedi bod yn glanhau tu mewn i'r gysgodfan yn ddiweddar. Arwydd o'r amseroedd, fe ymddengys, yw bod angen gwneud gwaith o'r fath gan bod diffyg parch yn cael ei

ddangos tuag at adeiladau ac eiddo y dyddiau hyn. Diolchwn i'r person dan sylw am ddangos y ffordd ymlaen i ni.

DIOLCH I BAWB: Hoffai Mr Hugh Thomas, 1 Bro Elidir, ddiolch i bawb, yn feddygon, gweinyddesau, cymdogion a ffrindiau am bob gofal a charedigrwydd a ddangoswyd tuag ato yn dilyn derbyn triniaeth law feddygol yn ddiweddar yn Ysbyty Gwynedd.

Mrs Katie Jones, 1 Bryn Bella, Fachwen

Bu farw'n dawel yn Ysbyty Conwy, ar Awst 29ain yn 91 mlwydd oed. Mam dyner Bobbie Wyn, Beryl a Wilfred a gwraig hoffus y diweddar Griffith John Jones. Bu'r angladd yn Eglwys Llandinorwig ar Fedi'r 1af. Gwasanaethwyd yn yr Eglwys gan y Canon Richard Jones. Anfonwyd blodau oddi wrth y teulu, Bobbie a'i wraig Frankie o

Parhad ar dudalen 13

TAC SIS BETH EL

UNRHYW AMSER - UNRHYW BELLTER

Ffôn: (93) 670555

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

4 Bryn Eglwys
Penisarwaun
Ffôn: Llanberis
871047

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn, Waunfawr 626.

Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Awst:

1. Evelyn Anderson, 11 Stâd Ty Hen; 2. Iolo Huws Roberts, Bodrida; 3. Julia Roberts, 10 Ael y Bryn.

DIOLCH: Dymuna Sylvia a Rhodri Prys Jones, Pen y Graig, ddiolch yn garedig am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur genedigaeth eu mab bychan, Trefor.

LLONGYFARCHIADAU: I Judith ac Alan Hughes ar enedigaeth merch, Mari, chwaer fach i Elin, Cari, Ffion a Nia, ac i Mrs Helen Jones, Dol Erddi ar fod yn nain unwaith eto.

I Ann Dawson, Bro Waun, ar ei phriodas â Dean Clark o Landwrog.

I Delyth Williams, Fferm Bodhyfryd, ar ei phriodas â Glyn Alun Griffiths o Feddgelert.

YR YSBYTY: Croeso gartref o'r ysbty i'r canlynol a'n dymuniadau gorau iddynt am lwyr wellhad buan, sef: Mrs Mwynwen Jones, Tref Eilian; Mr Arfon Hughes, Manchester House; Elin Gwilym, Llidiart Wen; Mrs Mona Roscoe, Ty Ni; a Mrs J Maud Spark, Tremnant.

Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Morris Lewis, Ty Newydd sy'n parhau yn yr ysbty.

CYDYMDEIMLO: Yn frawychus o sydyn y bu farw Mrs Ceinwen Lewis 8 Ael y Bryn yn 51 mlwydd oed. Estynwn ein cydymdeimlad dwysaf tuag at ei phriod Mr Bill Lewis a'r plant i gyd, hefyd ei chwaer Mrs Mary Williams, Tref Eilian a'i brawd Mr Marc Jones, Ael y Bryn a'r teulu i gyd.

YR EISTEDDFOD: Cynhelir yr Eisteddfod eleni ar Hydref 8fed yn y Ganolfan. Drysau ar agor am 12.00 a'r Eisteddfod i ddechrau am 12.30. Byddai'r pwyllgor yn falch iawn o gacennau ar gyfer y Caffi.

APÊL EISTEDDFOD YR URDD 1990: Mae ein targed o £2,250 bellach wedi cyrraedd hanner ffordd. Gwnaed elw sylweddol yn y

Swper Awyr Agored ym mis Gorffennaf ac roedd pawb yn ddiolchgar am un noson braf yn yr haf beth bynnag. Dyma rai dyddiadau i chwi eu nodi o hyn i'r Nadolig:

bore Sadwrn, Hydref 22ain, bydd SÊL BWT CAR ym maes parcio y Ganolfan o 10.30 hyd 12.00. Tâl fydd £3.00 y car.

Nos Wener, Tachwedd 18fed, mae Eurig Wyn yn trefnu noson o adloniant yng Nglan Gwna, Caeathro, gyda Dafydd Iwan, Hefin Elis a'i fand, Rosalind a Myrddin, Idris Charles ac eraill. Raffl enfawr ar deisen Nadolig a gwinoedd ar y noson. Trefnir bws o'r Waunfawr.

Nos Wener, Rhagfyr 16eg bydd Gyrfa Chwist yn y Ganolfan.

Bydd y pwyllgor nesaf ar nos Fercher, Hydref 19eg am 7.00 o'r gloch yn y Ganolfan.

PARTI NADOLIG I BENTREF WAUNFAWR: Dewch i fwynhau noson yng nghwmni Steve Eaves a'i Fand yng Nglan Gwna, Caeathro, nos lau, Rhagfyr 15fed, 1988. Croeso i bawb o'r pentref. (Yr elw i Blaid Cymru).

CLWB 100 PLAID CYMRU: Dyma restr o enillwyr y Clwb 100 am fis Awst: 1. Eurig Wyn; 2. Rob Jones; 3. Haydn Jones.

CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR:

Yn eu cyfarfod diwethaf penderfynodd y cyngor gysylltu â'r contractwyr fu'n gyfrifol am y gwaith o osod wyneb newydd ar balmentydd y pentre. Bydd y cyngor yn cwyno wrthyn nhw a'r Cyngor Sir ynghylch safon gwael y gwaith.

Mae nifer o deuluoedd yn Nhrefeilian wedi cysylltu â'r cyngor ynglyn â chwn ar y stad sy'n cyfarth yn hwyr y nos a chynnar y bore. Bydd y cyngor yn cysylltu gydag Adran Iechyd Cyngor Arfon yn gofyn iddyn nhw ddelio gyda'r mater ar unwaith.

Yn dilyn cwynion gan nifer helaeth o rieni ynglyn â safon gwael gyrru bwsiau ysgol i Gaernarfon, bydd y cyngor yn cysylltu â pherchnogion y bwsiau ac hefyd gydag Adran Addysg

Cyngor Sir Gwynedd.

Mae rhieni plant yr ysgol gynradd wedi cysylltu â'r cyngor ynghylch cyflwr peryglus yr eiddew trwchus sy'n tyfu dros y palmant oddiar Lôn yr Ysgol. Bydd y cyngor yn cysylltu â'r Cyngor Sir a'r perchnogion.

Adeiladir cysgodfan bwsiau ger stad Bodhyfryd yn y flwyddyn ariannol nesaf, er mwyn osgoi anhwylostod i bobl yn disgwyl am y bws cyhoeddus dan y coed a'r brigau gwlyb.

YR URDD: Ar Fedi'r 7fed dechreuodd tymor newydd cyfarfodydd yr Urdd yn y Ganolfan rhwng 6 a 7 o'r gloch ar nos Fercher. Ymaelododd 40 ac mae croeso i unrhyw un arall ymaelodi. Tâl aelodaeth am y flwyddyn yw £1.50.

Ar Fedi'r 14eg mwynhaodd y plant Helfa Drysor, a oedd wedi'i pharatoi gan Nia, Sian a Karen; ac wrth lwc roedd yn noson braf. Tim Kiley ddaeth yn fuddugol.

Ar Fedi'r 21ain cafwyd Rownderi yn y Neuadd Fawr, gyda Gareth Jones a Nan Wyn, sy'n gofalu am y plant bob wythnos, yn cadw'r sgôr yn ofalus.

Ar Fedi 28ain aeth y Gangen i nofio i'r Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon. Cofiwch na fydd yr Urdd yn cyfarfod ar Hydref 5ed gan y bydd pawb yn brysur yn paratoi ar gyfer Eisteddfod y Pentref ar yr 8fed. Ni fydd cyfarfod ar Hydref 26ain chwaith gan ei bod yn wyliau hanner tymor.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL:

Mewn ateb i lawer un sy'n holi, bydd tymor y Gymdeithas Lenyddol yn cychwyn nos Lun, Hydref 31 - y diwrnod y mae'r ysgolion yn ail-ddechrau wedi gwylliau hanner tymor. I agor y tymor eleni, ceir darlith gan Y Parch Emlyn Richards, Cemaes, Ynys Môn, ar 'Hen Borthmyn Môn'. Mae canmoliaeth mawr i'r ddarlith hwyliog hon ac mae'r Parch Emlyn Richards yn bwriadu cyhoeddi llyfr ar y testun cyn diwedd y flwyddyn. Yn ystod y tymor disgwylir yr Athro Bedwyr Lewis Jones i egluro 'Enwau Lleodedd' yn y fro a Mr Hywel Parry, y Groeslon, i roi sgwrs ar hanes Bryncroes yn Llyn. Yn ogystal ceir nosweithiau yn cael eu cynnal gan yr aelodau - arlwy difyr dros y gaeaf.

YR YSGOL: Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant mewn Arholiadau Cerddorol: Ffliwt Gradd 4 - Anwen Rhys Jones (Teilyngdod); Gradd 3 - Delyth Mai Jones (Teilyngdod); Clarinet Gradd 3 - Kailey Jones (gydag Anrhydedd).

Enillwyr Tarianau'r Ysgol am y flwyddyn ysgol 1987/8 oedd fel a ganlyn: Tarian Gerddoriaeth - Anwen Rhys Jones a Delyth Mai Jones; Tarianau Cywaith - Hedddus Gwynedd; Tarian Pencampwraig Mabolgampau - Ceryl Davies; Tarian Pencampwr Mabolgampau - Marcus Hughes.

**Gwasanaeth NEWYDD
ar garreg eich drws**

**SEGONTIUM
CAR • VAN HIRE**

Cerbydau Pickup, Luton, Cargo a Bysus Mini

Hefyd Gwasanaeth Glanhau Ceir

**UNED 5, STAD CIBYN
CAERNARFON Ffôn: 2013**



I weled ein crôg fasgedi - a'r grug
Sydd mor grand, a pherthi
O goed fyrdd, i wyrdd erddi
Dowch oll i'r Antur, da chwi

**CANOLFAN ARDD
ANTUR WAUNFAWR**

Ffôn: Waunfawr 721

Am flodau gardd i harddu - a llysiau
Sy'n llesol i'r teulu
Ewch heibio i archebu
Yno lwyth planhigion lu

*** GRUG
* ALPAU
* PERTHI
* LLYSIAU**



STRYD FAWR, DEINIOLEN Ffôn Llanberis 871210

Crefftau llechi: arlunwaith, clociau, calendrau,
raciau llythyrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill:**
crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.

Arddangosfa o hen luniau chwarel.
A dewis rhagorol o Fideos i'w benthg

ECO'R IFANC

Dyma hanes gwyliu rhai o blant Llanrug. Da iawn chi'ch pump. Mae 'na wobwr ar y ffordd i chi!

DEG GWLAD MEWN CAR

Croesi y dyfroedd - am brofiad, o Dover i Calais - y croesiad byrraf. Ond profiad mawr i mi. Roeddwn wedi croesi i Ffrainc o'r blaen pan oeddwn yn bedair oed ond doeddwn i ddim yn cofio. Yna ar ôl tua deg milltir yn Ffrainc croesi i Wlad Belg, gweld gogoniant Brwsel a gweld crancod byw ar y stryd yn cael eu gwerthu. Yna aros noson yn Koln, dinas fawr brysur, ychafi. Argraff wael a roddodd yr Almaen arnai y diwrnod cyntaf ond fe hoffais Nuremburg (cyfaill dre yn yr Almaen). Yna teithio lawr i Awstria - dyma le hardd a chawsom haul poeth am y tro cyntaf yma. Aros mewn pentref unig ond yn llawn gwestai, roedd y pentref ei hun yn uwch na'r Wyddfa heb sôn am y mynyddoedd o'n cwmpas. Roedd rhaid i Mam brynu potyn blodau cyn ymadael a chroesi gwlad wyllt yr Eidal, bu'r daith yn hir a blin nes cyrraedd y gwesty yn Iwgoslafia. Roeddem mewn rhan Eidalaidd iawn o'r wlad, y ffyrdd a'r parlyrau hufen ia yn Eidalaidd eu naws. Saith diwrnod yma i ymlacio a gweld yr ogofau. Roedd yn eithafol o boeth ac yn ôl a blaen a mi i'r pwll nofio drwy'r dydd. I feddwl ein bod ni reit yng ngogledd Iwgoslafia. Wel mae'n rhaid fod pawb sydd ym mentro i'r de yn rhostio yn y gwres. Cawsom y glaw cyntaf ers tro yn y Swistir ar ein taith yn ôl. Aros noson yno cyn teithio drwy Ffrainc. Trio malwod ac aros noson yno, cyn troi tua Belg ar ôl ymweld ag wyth gwlad dramor a teithio tair mil o filltiroedd yn y car coch.

Llyr Siôn (10 oed)

GWYLIAU YN FFRAINCE

Yr Haf yma aethom fel teulu i Ffrainc. 'Roeddem yn aros mewn ty ar Ynys Re, mewn pentref bychan o'r enw La Fotte. I fynd ar yr ynys, 'roedd rhaid croesi pont enfawr. Pont newydd sbon oedd hi a agorwyd ym mis Mehefin eleni. 'Roedd hi fel bwa fawr yn ymestyn i'r awyr, ac 'roedd hi tua dwy filltir o hyd.

'Roedd llawer o bethau yn wahanol yno o'i gymharu â Llanrug - y bwyd, tai, yr iaith ac 'roedd harbwr hardd yno, ble 'roedd y pysgotwyr lleol yn dod â'r pysgod i'r lan i'w gwerthu. Dysgais ychydig o Ffrangeg yno, a cawsom lot o hwyl yn nofio yn nhonnau mawr môr yr Iwerydd.

Symudom ymlaen ar ôl pythefnos yn La Flotte i bentref o'r enw St. Hilaire mewn carafan yr oeddem ni y tro yma. 'Roedd parc, pwll nofio, gemau, siopau a

phob math o bethau eraill yn yn maes carafanau.

Un diwrnod aethom i "Atlantique Tobbogan" Parc mawr oedd yn llawn sleidiau. 'Roedd pedwar math yno - un llythren llydan melyn, serth iawn ac roeddech yn symud yn gyflym iawn arno. 'Roeddwn yn troi a throi ac wedyn "splash" i'r dwr. 'Roedd yno sleid glas uchel fel tiwb yn mynd rownd a rownd fel petai byth am orffen. 'Roedd 'na sleid anferth yno hefyd - tua dwbwl maint ein ty ni! Cawsom lot fawr o hwyl yno.

'Roeddem ar lan y môr yn aml, ac 'roedd yr haul yn boeth. Gwnaethom lawer iawn o bethau ar ein gwyliau, ond y diwrnod yn "Atlantique Tobbogan" a fwynheais orau.

Siwan Humphreys (10 oed)

GWYLIAU YN HARRIS

Un bore cychwynom am yr Alban. Roedd hi'n ffordd hir cyn cyrraedd Carlisle a wal Hadrian. Ymlaen o'r fan hyn i Glasgow ac aros wrth ymyl Loch Lomond mewn lle gwely a brecwast.

Y bore wedyn dyma ddal y "ferry" yn Kyle of Lochalsh drosodd i Kyleakin yn Skye a dal y "ferry" arall o Uig drosodd i Tarbert yn Harris a Lewis yn yr "Outer Hebrides" y rhan ogleddol ydy Lewis a'r rhan ddeheuol ydy Harris. Nid oes meysydd carafanau ar Harris na Lewis ond roeddem yn lwcus i gael llogi carafan yn Horgabost. Un diwrnod aethom i weld prif dref Lewis, Stormoway. Lle prysur yw hwn hefo harbwr i gychod pysgota, a gwelsom ddau forlo yn y môr.

Diwrnod arall rhoesom lifft i ddau Almaenwr, daethant hefo ni i weld amgueddfa "Black House" - hen fwthyn traddodiadol, ac i'r Butt of Ness yn Lewis. Aethom i ben y twr goleudy yn y Butt of Ness, a gweld y tonnau'n torri ar y creigiau, ac yn y pellter Ynys St Kilda.

Mae hen ddynes yn Harris yn dal i wneud Brethyn Harris yn yr hen ffordd draddodiadol cawsom ei gweld yn gwneud y brethyn yn troelli, gweu a lliwio gwlan.

Mae llawer o bobl ar yr ynys yn siarad yr iaith Gaeleg. Roedd y traethau yn braf iawn yno, tywod melyn meddal a môr glas a disgy-nais i mewn i'r môr yn fy nillad un diwrnod. Mewn siop yn cael ei redeg gan hen ddyn cefais bar o welingtons rhy fawr i mi, doedd dim llai na maint 4 yn y siop.

Ar ôl bod ar yr Ynys am wythnos daethom adref trwy Glen Coe. Rhian Green (9oed)

Y COTSWOLD

Diwrnod cyntaf o'r gwyliau haf roeddym wrthi yn llwytho y carafan i fynd i'r Cotswold. Roedd Wendi a fi yn edrych

ymlaen am y gwyliau hwn. Roedd yr injan ar fin cychwyn pan troiais yn ôl roedd y carafan fel bwystfil mawr y tu ôl i'r car. Siwma hir iawn o chwech awr oedd o'n blaenau, ond roeddym yn aros noson hanner ffordd. Bore, codi'n fuan i gychwyn am Cotswold, doedd dim llawer i neud ar y ffordd, ond edrych ar yr olygfa hyfryd. Hanner dydd union, roedd arwydd Cotswold Hoburn Park. "Dyma ni" 'gwaedda! Lle distaw iawn oedd y pentrefi o gwmpas. Y bythynnod bach gyda'u to gwellt a'u gerddi blodeuog yn werth eu gweld.

Yn ystod fy ngwyliau fe aethom i Bath i weld y Bath Rhufeinig roedd y peth yn anhygoel. Ac fe aethom i Oxford, roedd fan yna yn le prysur a diddorol. Fe gawsom weld y prif golegau a'r prif ysgolion. Roedd y gwyliau hyn yn hynod o dda. Gwyliau i gofio yn y Cotswolds.

Sera Thomas (10 oed)

FY NGWYLIAU YN CYPRUS

Ym Mis Mehefin bum yn Cyprus ar fy ngwyliau. Yr oedd yn cymryd pedair awr a hanner i fynd yno ar awyren, a phan gyrhaeddodd yn Lamaca yr oedd y gwres yn taro arnom fel y daethom oddi ar yr awyren. Yn Limassol yr oeddym yn aros yn yr hen ardal o'r dref. Yr oedd yn dref fawr wrth ymyl y môr, ond cawsom weld llawer o'r ynys. Y dref brydferth a welsom oedd Ayia-Napa yr oedd y tywod fel aur yno, a'r môr yn wyrddlas a chlir. Yn ganol y dref yr oedd hen fynachdy. Mae llawer ohonynt ar yr ynys ond yr harddaf a welsom oedd i fynd yn y mynyddoedd a'i henw oedd mynachdy Kykko. Yr oedd y muriau wedi eu addurno â mosaïc, a'r unig beth i'w glywed oedd swm yr adar bach yn canu yno, yr oedd mor dawel a braf yno. Un diwrnod aethom ar hyd yr arfordir i Paphos a chyrraedd traeth o'r enw Coral Bay. Yr oedd y dwr mor glir yr oeddwn yn gallu gweld y pysgod bach o gwmpas fy nhraed pan oeddwn yn ymdrochi. Dyma'r gwyliau gorau eto - gob-eithio y caf fynd yno eto rhyw dro.

Claire Morris (10 oed)

JOIO

Beth ydych chi'n joio
Ei wneud ar benwythnos;
Gwyllo adar bach lliwgar
Fel titw ac eos?

Neu gwyllo'r teledu
Pan mae'n glawio tu allan,
A gweld haul a chynhesrwydd
Yng ngwlad gynnes Tarsan.

Ond gwell gennyf fi
Yw chwarae gemau
Ar y cyfrifiadur,
Sy'n llawn o fotymau.

Buaswn yn hoffi
Cael barbaciw neu goelcerth;
Ond a dweud y gwir,
Rwy'n joio popeth.

2il: Chopsticks. Dylan Price Williams

JOIO

Rwy'n joio haul
ac hefyd glaw,
Rwy'n hoffi'r lawnt
nid mwd a baw.

Rwy'n joio nofio
ac hefyd griced,
Rwy'n hofi hefyd -
daro'r wiced.

Rwy'n joio pys,
ac hefyd bins,
Rwy'n hoffi'r crys
a'r pâr o jîns.


Rwy'n joio chwarae
gyda'm ffrind Huw,
Ond yn fwyaf oll
"Rwy'n joio byw."

1af: Spectrum. Dyfed Jones

Cynnyrch y gystadleuaeth barddoniaeth 12-16 oed yn Eisteddfod Bentref Penisarwaun 1988. Teimlai'r beirniad, Ken Huws, Llanllyfni, fod gwaith y ddau uchod yn teilyngu lle yng ngholofnau'r Eco. Daliwch ati hogiau.

LLIWIAU

Fedrwch chi ddod o hyd i'r lliwiau cudd, drwy ail drefnu'r llythrennau?



CORNEL Y PLANT IAU

PÔS MIS HYDREF
(I'r plant lleiaf)

YR HYDREF

"Pan ddaw'r hydref, cnau a gasglwn,
Dringo Coed y Fron y byddwn,
Dail y coed yn awr sy'n disgyn.
Ar y llawr, mor noeth yw'r brigyn."

Mae'n fis Hydref, ac mae'r dail
yn dechrau disgyn o'r coed.
Ydych chi wedi sylwi ar yr holl
liwiau cynnes yr Hydref - coch,
brown, melyn, gwyrdd, oren a

phorffor.

Mae'r wiwer fechan yn brysur
yn hel ei stôr o gnau am y gaeaf,
ac mae'r draenog a'r llygod bach


yn paratoi am aeafu.

Mae hefyd yn dymor DIOLCH-
GARWCH. Y mis hwn byddwn
yn diolch i Dduw am y cynhaeaf.

1. Sawl ffrwyth sy' yn y llun ?---
2. Pa ffrwyth sy'n hir ac yn felyn?

3. Pa ffrwyth a fwyteir ym mis
Mehafin hefo hufen? -----
4. Pa ffrwyth sy'n frown ac sy'n
galed iawn, iawn? ----
5. Sawl ffrwyth coch welwch chi
yn y llun? ---

DIOLCH AM YR HOLL FFRWYTHAU LLIWGAR



- 1 coch
- 2 oren
- 3 porffor
- 4 brown
- 5 gwyrdd
- 6 melyn

LLANBERIS

Gohebydd: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir

CLWB YR HENOED: Nos Fawrth, 13 Medi, yn Ffestri Nant Padarn, cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol Clwb yr Henoed, dan lywyddiaeth Mr Eurwyn Jones, Delfryn. Cafwyd adroddiad grymus iawn gan Miss Ann Jones, yr ysgrifenyddes, ar waith y flwyddyn. Cyfeiriodd at golli amryw o'r henoed ac hefyd at golli un o aelodau'r pwyllgor, sef Mrs Eurwen Parry. Bu'n aelod ffyddlon a gweithgar ar hyd y blynnyddoedd a mawr fydd y golled ar ei hôl.

Cyflwynwyd yr Adroddiad Ariannol gan Mrs Gwyneth Clarke, a phleserus iawn oedd deall fod y sefyllfa ariannol yn iach ar ôl yr holl wario fu yn ystod y flwyddyn. Diolchodd y Llywydd i'r ysgrifenyddes a'r drysoryddes am eu hadroddiadau trylwyr. Cyflwynodd Mrs Meira Bryn Hughes, Cadeirydd Pwyllgor y Merched, siec anrhydeddus i Miss Ann Jones fel gwerthfawrogiad o'i gwaith fel ysgrifenyddes y Clwb am dros ddeunaw mlynedd. Er ei bod yn rhoi'r gorau i'r swydd hon, bydd yn dal ymlaen fel ysgrifenyddes y Clwb Cynilo.

Ymgwymerodd Mrs Marion Roberts, Bryn Mâl â'r swydd o Ysgrifenyddes Clwb yr Henoed a chroesawyd hi gan y Llywydd, Mr Eurwyn Jones. Nid yw'r gwaith yn newydd i Mrs Roberts gan iddi fod yn ymwneud â'r henoed pan oedd yn drefnydd y Prydau Parod ym mhentref Llanberis. Dymunwyd pob llwyddiant iddi yn y dyfodol. **DYMUNIADAU DA:** Dymunwn adferiad buan i Mrs Pritchard, 2 Stryd Bethesda sydd yn Ysbyty Gwynedd, a hefyd i'r rhai sydd newydd ddychwelyd adref o'r ysbyty a'r rhai sydd yn cwyno gartref.

CYDYMDEIMLWN ac Enfys, Dafydd, Keith a Mark, Noddfa, Stryd Fawr, hefyd Walter a'r teulu oll yn yr Alban yn eu profedigaeth o golli tad a thaid, sef Mr Huw Roberts (Huw Goat), gynt o Noddfa, Llanberis, oedd erbyn hyn yn byw yn York.

Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd i Robert Vaughan, Rhos Cambrian a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli mam a nain.

Yr un modd cydymdeimlwn â Mrs Dilys Phillips a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli ewythr yn America.

BINGO: Nos Wener, Medi 2il cynhaliwyd Bingo yng Ngwesty Dolbadarn tuag at Glwb y Methedig. Gwnaed elw o 88 o bunnoedd. Diolch i bawb a gyfrannodd. Bydd y Bingo nesaf yng Ngwesty Dolbadarn nos Wener, Hydref 7fed, a'r elw tuag at Sant Ioan.

LLONGYFARCHIADAU: i Elaine a David Evans ar enedigaeth eu mab bach, brawd i Marc; hefyd i Andrea Jones, 51 Dol Elidir ar enedigaeth ei merch fach ac i Gwynfor a Margaret ar fod yn daid a nain am y tro cyntaf.

LLONGYFARCHIADAU i Gillian Pitts, Stryd Yankee ar achlysur ei phen-blwydd yn un ar hugain oed ar Fedi 28;

I Mrs Jan Davies, Stryd y Dwr ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed.

I'r rhai canlynol ar achlysur eu pen-blwydd yn ddeunaw oed yn ystod y mis: Dylan Thomas, 13 Ty Du Road; Andrew Griffith, 7 Llain Wen; Iestyn Jones, 2 Llain Wen; Derfel, Fron Goch.

LLONGYFARCHIADAU i Judith a Nigel ar achlysur eu dyweddiad yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU i blant y pentref ar basio eu arholiadau, un ai yn yr ysgol neu yn y coleg a dymuniadau gorau iddynt yn eu gyrfa newydd, mewn gwaith neu goleg. Nid wyf yn enwi neb rhag pechu wrth adael enwau allan.

TE PARTI CYMREIG: Dydd Llun, Medi 19 cynhaliwyd prynhawn o 'De Parti Cymreig' yn Angorfa, Stryd y Ffynnon, tuag at y mudiad NSPCC. Cafwyd prynhawn llewyrchus iawn gyda rhai o'r pwyllgor wedi gwisgo mewn gwisg Gymreig. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.

BEDYDD: Dydd Sul, Gorffennaf

15fed yn Eglwys Gatholig All Souls, Weaste Road, Salford, Manceinion, a'r Tad Travis yn gwasanaethu, bedyddiwyd Laura Ann, merch fach Jacqueline a Geraint Jones, (gynt o 40 Afon Terrace, Llanberis) a wyres fach Cledwyn a Iona Jones, 40 Alun Terrace. Y fam fedydd oedd Cath (modryb y ferch fach) a'r tad bedydd oedd Tony (ffrind y rhieni).

DIOLCHIADAU: Dymuna Dylan Thomas, 13 Ty Du Road ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn ddeunaw oed.

DYMUNA Mrs Betty Hughes a'r plant ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli priod a thad, sef Mr W Hughes, Stryd yr Wyddfa. Diolch i bawb.

DIOLCH: Dymuna Mrs A B Jones, Y Dreffan, Capel Coch Road, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y llu o gardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd tra yn Ysbyty Clatterbridge. Diolch yn fawr.

DIOLCH: Dymuna Andrea, 51 Dol Elidir, ddiolch i'w ffrindiau a chymdogion am lu o gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar enedigaeth ei merch fach, Lisa. Diolch hefyd i Nia, drws nesa am gludo ei mam i'r ysbyty. Diolch yn fawr.

DIOLCH: Dymuna Judith a Nigel ddiolch o galon i'w perthnasau,

ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ganddynt ar achlysur eu dyweddiad yn ddiweddar. Diolch yn fawr i bawb.

DIOLCHIADAU

Dymuna Enfys Parry, Noddfa, Llanberis, a Walter Roberts, yr Alban, a'u teulu ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion yn Llanberis ac ardaloedd bro yr Eco am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli eu tad, Mr Huw Roberts, a oedd yn byw ym Methel cyn symud i York i fyw. Diolch o galon i bawb.

DIOLCH: Dymuna Andrew Griffith, Llain Wen ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn ddeunaw oed.

DYMUNA Mrs Lizzie Jones, Eithnog, Coed, ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau i gyd am eu caredigrwydd tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar.

NANT PERIS

APÊL AR RAN POBL

NANT PERIS

Y maent angen rhywun i gasglu hanes eu hynt a'u helynt - a dyna'i gyd.

Byddaf yn dod o amgylch un nos Fawrth bob mis i dderbyn y newyddion.

Cysylltwch â Nant Roberts, Llanberis 870 760.

Bistro

Glandŵr

43-45 Stryd Fawr

LLANBERIS

Ffôn: LLANBERIS 871278

(Danny a Nerys Roberts)



CURIAD CALON CYMRU



CURIAD CALON CYMRU

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd

Pen-blwydd ac ati,

Peis, Rholiau Sosej,

Pasteiod, Teisennau Hufen,

Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491



E.W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

CLWB YR HEULWEN - Medi: Ar ran y Clwb dymunodd y Llywydd, Mrs Eluned Porter, bob hapusrwydd i Mr David Morris yn ei gartref newydd yn 6 Llys y Gwynt. Pob dymuniad da hefyd i Gwenifer, Emlyn Wyn a Clifford yn eu cartref newydd hwythau yn Llanberis.

Croesawyd Mrs Charlotte Dickens i'r Clwb - Almaenes ydyw wedi symud i fyw i Tai Ffynnon, ac yn awyddus iawn i ddysgu'r iaith Gymraeg.

Dyma'r cyfarfod cyntaf i'r merched wedi marwolaeth sydyn un o ffyddloniaith y Clwb, sef Mrs Gwen Lewis. Cydymdeimlwyd yn ddwys iawn â'r teulu oll. Anfonwyd cofion cynhesaf a dymuniadau da am adferiad iechyd buan i Owen Thomas a Thomas Davies, Tai Nwyddion wedi triniaeth yn yr ysbyty, ac i aelodau'r Clwb oedd yn absennol oherwydd anhwylder iechyd.

Ar fyr rybudd, daeth Ann Ifans i gadw cwmni inni - soniodd am ei gwyliau yn Sbaen. Diolchwyd iddi gan Mrs Nellie Roberts. Rhoddwyd y te gan Mrs Elen Williams a Mrs Mary Davies a diolchwyd iddynt gan Mrs Nesta Jones. Enillwyd y Raffl gan Mrs M J Roberts, Llys y Gwynt. Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 18fed yng nghwmni Mrs Nansi Jones.

PWYLLGOR NEUADD: Cynhelir amrywiol weithgareddau y tymor hwn eto i godi arian at y Neuadd Bentreff:

Medi 30: Cwis yng ngofal John Arwyn yn Neuadd yr Eglwys am 7.00 o'r gloch. Mis y gwrachod a'r bwganod yw Hydref, felly yn dilyn llwyddiant Noson Calangaeaf y llynedd, trefnir noson gyffelyb nos Lun, Hydref 31ain am 6.30 pm. Croeso cynnes i bawb. Gweithgaredd awyr agored fydd gennym fis Tachwedd, dan y teitl bachog, 'Budd Baw Buwch'. Rhennir cae o eiddo Michael Jones, Perthi, yn garfannau a gwerthir pob carfan am swm rhesymol. Yna gollyngir yr hen fuwch i'r cae gwyrddlas glân a dis-

gwyl i natur chwarae ei rhan. Lle bynnag y 'gweithreda'r fuwch', yna y sawl fydd wedi prynu'r llecyn hwnnw fydd yn ennill y wobr ynghyd â'r 'gwrtait', i'r gwelyau rhosod! Felly prynwch lecyn gan aelodau'r pwyllgor yn ystod yr wythnosau nesaf.

Gobeithir cael Noson Gymdeithasol fis Rhagfyr i flasu naws y Nadolig. Fe drefnir bws ac adloniant. Ceir rhagor o fanylion yn y rhifyn nesaf. Fe dynnir Clwb Cant yn ystod yr holl weithgareddau.

CROESO: Croesewir Morfudd Huws a Tom Richmond yn gynnes iawn i'n plith. Maent yn byw yn 'Golygfa'r Wyddfa'.

POB LWC: Dymuniadau gorau i Gwyndaf a Brenda Lewis a'r plant Elaine, Wayne ac Andrea sydd wedi symud i fyw i'r Groeslon. Dymuniadau gorau hefyd i Nia Parry, Tawelfa sydd newydd ddyweddio.

GWELLHAD: Deallir fod nifer o'r pentref wedi bod yn yr ysbyty a dymunir adferiad buan i Carol Jones, Steven Jones, Kathleen Jones a Pat Owen, Siop Gron. Y mae eraill wedi bod yn sal, brysiwch wella i gyd!

Derbyniodd Mr Clegg, Peniprint, driniaeth yn ysbyty Llandudno.

Rydym yn falch o ddeall fod Ceren ac Ann, Bryn Eglwys yn gwella erbyn hyn.

YSGOL SUL BOSRA: Ail ddechreuodd yr Ysgol Sul wedi gwyliau'r haf. Croesawyd Dion Roberts fel aelod newydd ac rwy'n siwr y bydd y plant yr un mor ffyddlon eleni eto. Cynhelir gwasanaeth Diolchgarwch gan y plant fore Sul Diolchgarwch am 10.00 am. Croeso cynnes i bawb. Y GYMDEITHAS FEIBLAIDD: Cynhelir gwasanaethau'r Gymdeithas Feiblaidd yng Nghapel Brynrefail, pnawn a nos Sul, Hydref 2il.

Bydd plant Ysgolion Sul Bosra ac Eglwys Santes Helen yn cymryd rhan ar y cyd. Fe drefnir bws i'r ddau wasanaeth.

'MWY NAG AUR': Y mae dros 50

o dicedi wedi'u gwerthu yn y pentref ar gyfer y Pasiant yn Neuadd PJ Bangor, Hydref 14 a 15. Stori Mari Jones a'r Beibl ydyw - cyfaddasiad Cymraeg gan Rhidian Griffiths gyda Chôr Ieuencid Cyd-Enwadol Ysgolion Sul Arfon a Chôr Cymysg Bro Dyfnan, Ynys Môn, dan arweiniad Robin Jones, Bethel. Y mae 7 o enethod o'r pentref yn canu yn y côr.

NSPCC: Dymuna Cangen Llanrug a'r Cylch o'r NSPCC ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd at Sêl Cist Car, Raffl a'r daith gerdded a gynhaliwyd mis Mehefin. Gwnaed elw o £701.39 at yr achos. Diolch am bob cefnogaeth.

LLONGYFARCHIADAU: Pob benth i Glenys a Ken Williams, Trem Cynfi ar achlysur dathlu eu Priodas Arian.

EGLWYS SANTES HELEN:

Gwasanaethau Diolchgarwch: Hydref 7: Cynhelir gwasanaeth am 10.30 a.m. pryd y gweinyddir y Cymun Bendigaid a derbyn rhodion y plant.

Am 4.30 p.m. bydd gwasanaeth Gosber yng ngofal y Parch Barry Thomas, Caernarfon.

Nos Lun, Hydref 18fed am 6.30 p.m. yn Neuadd yr Eglwys, cynhelir Ffair Hydref. Croeso cynnes i bawb.

DIOLCH: Dymuna Margaret a Gareth Williams, Carrog, Waun, ddiolch i'w teulu a ffrindiau am y llu cardiau ac anrhegion a gawsant ar achlysur dathlu eu Priodas Arian ym mis Awst.

URDD ADRAN BENTREF: Nos Fawrth, Medi 20fed cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn Ysgol Tan-y-Coed i ddewis swyddogion a phwyllgor ar gyfer y flwyddyn 1988-89, ac i drefnu rhaglen am y

tymor. Etholwyd y canlynol fel swyddogion: Arweinydd - Mrs Delyth Williams; Is-arweinydd - Mrs Myfi Jones; Ysgrifennydd - Mrs Elizabeth Jones; Is-ysgrifennydd - Mrs Ann Paterson; Trysorydd - Mrs Ellen Lewis; Is-drysorydd - Mrs Janice Jones. Gweddill y pwyllgor ydyw Mrs Carolyn Roberts, Mrs Nant Roberts, Mrs Elinor Williams Mrs Gwenda Jones, Mrs Mary Elliot, Mr Tony Elliot. Cynhelir y cyfarfod cyntaf nos Fawrth, Tachwedd 1af yn Ysgol Tan-y-coed am 6 o'r gloch pryd y bydd cyfle i'r plant ymaelodi am £1.40 (mae'n rhaid bod yn 6 oed ar Fedi 1af). Bydd diod oren a chreision ar werth am 20c.

Buasai'r pwyllgor yn ddiolchgar i unrhyw un a fuasai'n fodlon hyfforddi partion ar gyfer Eisteddfod yr Urdd 1989 ond sydd efallai ddim yn dymuno bod ar y pwyllgor, neu os oes rhywun yn fodlon dod a char os bydd angen i fynd i ryw weithgaredd y tu allan i'r pentref, i gysylltu ag unrhyw aelod o'r pwyllgor os gwelwch yn dda.

Parhad o dudalen 8

Ipswich, eu merch Brenda, George a'r plant bach, Emma, Julie a Paul. Wilfred a'i wraig Eileen a'r ferch Audrey Pode, Dorset. Beryl a'i gwr Harry, eu meibion Mathew, Colin a Robert, Samantha ac Yvonne a phlant bach Colin, Natasha, Rory, Tegan.

Cafwyd arian gan deulu a ffrindiau tuag at Gartref Plas y Dre, Llandudno. Diolchwn o galon i bawb am eu cydymdeimlad a'u caredigrwydd a diolch i Mr Pritchard, Llanberis am ei ofal parchus.

GWYBODAETH AM Y CO-OP

Annwyl Syr

'Rwyf yn ceisio casglu gwybodaeth am flynyddoedd cynnar y Co-op yn Llanrug ac er fy mod wedi gwneud peth ymchwil, ychydig iawn o ffeithiau a gefais am y ffordd y'i sefydlwyd.

Fe gofrestrwyd y gymdeithas yn Chwefror 1900 gyda'r cyfeiriad Tŷ Clwb, Llanrug, ond mae'n debyg ei fod wedi ei sefydlu rhai

blynyddoedd cyn hynny.

Buaswn yn falch iawn pe buasai un rhywun sydd yn gwybod rhywbeth o'i hanes yn cysylltu â mi..

Yn gywir

Goronwy Hughes

Eithinog

14, Afon Rhos

Llanrug

CAERNARFON

Ffôn: C'fon 4839

W.H. JONES

TRYDANWR

**Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS**

**FFÔN:
LLANBERIS 871470**

Contractau
Weirio Tai

Cawodydd Trydan
ac ati



CARTREF YR HENOED

**CARTREF NEWYDD COFRESTREDIG
AG IDDO AWYRGYLCH GYMREIG**

**CYSYLLTWCH Â MRS MEIRWEN
THOMAS NEU MRS ELI WILLIAMS**

**Ffordd yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon
(0286) 4652**

**Wavell
Roberts**
CIGYDD

**LONDON HOUSE
LLANRUG**

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist
**MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**

HER UNAWD

gan Y Gwalch

Pan drawais ar yr hen fachgen hwnnw sydd wedi cymeryd lle y Deryn Mawr, yn y dre y diwrnod o'r blaen, oedd o yn mwmlan canu.

"Mae 'na swn llon arnoch chi," medda fi.

"Grym arferiad ysti," medda fo. "Roeddwn i'n fariton siort gynta wyddost ti, er stalwm."

"Tewch â deud!"

"Oeddwn yn tad. Roeddwn i'n cipio'r gwobra mawr 'na ar y llwyfanna gora. Mi rydw i'n cofio cynnyg mewn 'steddfod tu draw i Lanarchymedd, ac roedd rhai o gantorion gora'r dalaith yn f'erbyn i - nid rhyw griw peniridin newydd ddysgu sol-ffuo ysti. Roedd y capal o dan ei sang mi rydw i'n cofio. Cario meincia i mewn i'r bobol gael ista. Dydd Llun Sulgwyn oedd hi, a hitha'n boeth. Roedd y chwys yn llilifo i lawr y muria, ac roedd y bobol rheiny wedi mynd i ddaffod eu dillad; a'r staesus cria rheiny gan y merchad yr adag honno.

Roedd yna hanner cant yn y prilum, a dim ond y fi a rhyw foi o Rhosllanarchrugog, a rhyw gontralto gafodd y stêj - dydw i ddim yn cofio lle oedd hi'n dwad

rwan chwaith. Ond mi roedd hi'n gantrag fawr, wedi bod yn y La Scala yli - Milan, ac nid yn llau o dan y seti chwaith cofia.

Roedd yna ddwy ddynas wedi cael gwasgfa cyn i mi ddwad i fyny. Wedi styrbio wyt ti'n gweld. Roedd yna gymaint o ddisgwyl amdana i. A doeddwn i ddim ond prin wedi dechra canu, pan aeth yna setiad ohonyn nhw i lawr yn y pen blaen, fel dominôs.

Doedd yna ddim ond un dyn ambiwlans yn y swabia rheiny yr adag honno. Doeddwn nhw ddim wedi dechra dosbarth wyt ti'n gweld. Ac mi gafodd hwnnw stryffag i cyrraedd nhw wrth stryffaglio tros gefna'r seti a thros glunia pobol. A doedd o ddim yn gry ei hun erbyn deall. Wedi cario gormod o stretiars ar ben ei hun meddan nhw.

Beth bynnag, mi cafodd nhw allan yn y diwedd, a wydda fo ddim beth i neud hefo nhw wyt ti'n gweld. Doedd yna ddim clinics a phetha felly yr adag honno wyddost ti. A'r cwbl fedra fo neud oedd eu gosod nhw hyd y cerryg beddi a'r cistia, ac yr oeddwn nhw'n deud ei fod o wedi gwagio hynny o boteli oedd ganddo fo yn

ei fag yn trio eu dadebru nhw.

Roedd yna un ddynas, pladras o siortan wedi dechra fflonsio gyno fo ar rhyw gist, am fynnu rhuthro i mewn yn ei hôl i wrando arnai a phoer mawr o gwmpas ei cheg hi. Ac mi fuo'r dyn yn ymrwyfo rownd y fynwant hefo hi meddan nhw, yn trio cael trefn arni hi, a'r unig ffordd y cafodd o fantais arni hi yn y diwedd; mi aeth ei choes hi yn sownd yn strap ei fag o, ac mi gafodd gyfle i'w chloi hi yng nghwt yr elor.

Ac mi roedd yna rhyw greadur yn dwad adra o Lanarchymedd, wedi bod yn potio. Roedd hi wedi tywyllu erbyn hynny wyt ti'n gweld, fel bydda'r steddfoda amsar hynny yn rhedag yn faith, ac mi welodd y merchad 'ma ar y cistia, a dyma fo'n meddwl fod y Corn Mawr wedi canu a'u bod nhw yn dwad odd 'no i gyd. Mi droiodd yn llwyr ymrwrthodwr ar y lon meddan nhw cyn ei gleuo hi am Rosmeirch, ac mi roedd rhai yn mynd mor bell â deud fod ei ddillad isa fo i gyd ar y lein diwrnod wedyn."

"Sut hwyl gawsoch chi yng nghanol yr holl helynt?" medda finna yn y diwedd wedi cael cyfle i dorri ar ei draws o.

"Mi ddaliais ymlaen wyddost ti," medda fo. "Dyna ydy nôd canwr mawr wyt ti'n gweld; peidio â gadael i ddim ei darfu o, hyd

yn oed pe tasa'r capal yn cymyd tân."

"Ddaru chi ennill?" medda fi yn ddigon gwirion.

"Wyddost ti be'? Ddaru nhw ddim dyfarnu. Fedra nhw ddim wyt ti'n gweld. Roedd y bobol rheiny wedi mynd yn holics glan erbyn hynny; wedi cael eu cyfareddu gymaint gen i ac wedi cael eu tarfu ar yr un pryd yng nghanol yr holl wres hwnnw.

Roedd y merchad rheiny ar ben y seti yn chwifio eu staesus, ac yr oedd y beirniad hwnnw wedi mynd ar goll o dan eu traed nhw. Welodd neb byth mohono fo. Ond ar draws pob dim, roeddwn i'n rhyw deimlo nad oeddwn i wedi cael gafael ar y darn rhywsut. Mi fedri ddeud ysti ar ôl bod ar y llwyfanna mawr yna mor amal â fi. A phan es i adra fachgan a dechra tynnu amdana, mi ffendis pam."

"Beth oedd y matar?"

"Tro yn fy mresen i achan. Mae chydyg bach yn ddigon i daflu artist mawr wyddost ti. Sensitif wyt ti'n gweld."

ÔL NODYN

Yn y rhifyn cyfredol o'r COUNTRYMAN, mae gan y Gwalch erthygl am yr hen 'ffariars' gwlad a'u dulliau o feddiginiaethu anifeiliaid cyn dyfodiad y milfeddygon a'u chwistrellau. Pennawd yr erthygl yw 'Home killed - or cured'.

CAEATHRO

Gohebydd: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen, Caernarfon.

LLONGYFARCHIADAU i Ann Hughes, 7 Erw Wen, ar ei phen-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar. Pob dymuniad da iddi yn y Coleg Normal;

i lolo Roberts, Gerallt, Erw Wen, ar ei ben-blwydd yntau yn 18 oed ar Fedi'r 20fed;

i Sharon Griffiths, Delfryn, ar ei phen-blwydd hithau yn 18 oed ar Hydref 5ed;

i Mr a Mrs G Griffiths, 7 Bryn Gof, ar ddathlu eu Priodas Aur ar Fedi'r 29ain. Dymuniadau gorau a llawer o hapusrwydd iddynt oddi wrth eu teulu a'u ffrindiau oll.

GWELLHAD BUAN i Mrs Mary

Jones, 14 Rhes Glangwna, sydd wedi cael sbel yn Ysbyty Gwynedd. Brysiwch wella Anti Mary.

Mae'r heddlu wedi hysbysu Cyngor Cymuned Waunfawr y byddan nhw'n cosbi pobl am barcio'n rhy agos i'r gyffordd beryglus sy'n cysylltu'r pentre â'r briffordd ger tafarn Bryn Gwna. Bydd y cyngor hefyd yn pwyso ar y Cyngor Sir i roi llinellau melyn dwbwl yno.

Bydd y cyngor hefyd yn cysylltu gyda phawb sy'n gyfrifol am y llwybr cyhoeddus sy'n arwain oddi i'r lôn Pont Rug ger modurdy Gwalia. Mae'r llwybr bellach mewn

DRAENOG



Glywsoch chi sôn am y ffarmwr o Faes Padarn a syrthiodd i'r ffos dros ei ben. Tybed mai ei oed o sy'n dal i fyny ag o, ynteu wedi gadael ei sbectol adra oedd o.

A beth am y ffarmwr arall hwnnw a alwodd ei gymydog allan hefo'i 12 bôr rhyw gyda'r nos am fod ci yn hario ei ddefaid. Ar ôl gweld, nid ci oedd yno ond bwch gafr wedi crwydro i borfa lasach.

cyflwr drwg ac mae angen torri brigau yn ei ymyl a thrwsio camfeydd.

CYMDEITHAS Y BEIBLAU

Cangen Deiniolen a'r Cylch Cyfarfodydd Blynnyddol Dydd Sul, Hydref 2il, 1988

a gynhelir yng Nghapel M.C. Brynrefail

Cyfarfod y Prynhawn am 2 o'r gloch

Llywydd: Mr Gwyn Hefin Jones, Brynrefail

Eitemau gan Ysgolion Sul Cydenwadol y Dosbarth

Cyfarfod yr Hwyr am 6 o'r gloch CYMANFA GANU

Llywydd: Y Parch Tegid Roberts, Penisarwaun

Arweinydd: Mrs Einir Wyn Williams, Rhiwlas

Organydd: Miss Lowri Prys Roberts, Brynrefail

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

TEGID

PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR 291

Hefyd ail-osod carpedi



J.M.
JONES
A'I FEIBION

GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y SGWÂR, LLANRUG

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol, Cerrig o bob math ar gael.

Ffôn:
Caernarfon 2898
(dydd)
Y Felinheli 670124
(nos)

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR

GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

LANSIO CYNLLUN NEWYDD 'CROESFFORDD ARFON'

Roedd un o feibion enwocaf Arfon yng Nghanolfan Ddydd Maesincla, Caernarfon nos Iau, 29 Medi i helpu i lansio cynllun newydd sbon danlli ... y cyntaf o'i fath yng Nghymru.

Gwahoddwyd doctoriaid, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr iechyd a chynrychiolwyr mudiadau gwirfoddol i'r noson arbenig ac hefyd y dramodydd Gwenlyn Parry, a ddisgrifiodd mor werthfawr yw'r cymorth a dderbynia ei fam, sy'n dioddef dan anfantais corfforol.

Pwrpas cynllun 'Croesffordd Arfon' yw denu cynorthwyyr lleol i helpu'r rhai dan anfantais corfforol yn eu cartrefi yn Arfon.

'Yn aml mae ar y methedig angen sylw 24 awr, 7 diwrnod yr wythnos a byddai awr neu ddwy o gymorth yn rhoi seibiant haeddiannol i'r teuluoedd sydd mor weithgar yn edrych ar eu hôl,' medd Lucille Hughes, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd. 'Yn naturiol, does dim i rwystro'r cynorthwyyr roi mwy o'u hamser, hyd yn oed aros dros nos yng nghartrefi'r methedig - gobeithir y byddant yn tyfu'n gyfeillion i'r methedig a'u teuluoedd.'

Bydd Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol yn talu i'r cynorth-

wyyr am eu gwasanaeth ond ni chodir unrhyw dal ar y rhai sy'n derbyn y gwasanaeth,' medd Lucille Hughes.

Cadeirydd Pwyllgor 'Croesffordd Arfon' yw Mrs Elinor Wigley a'r Trefnydd yn Rhanbarth Arfon yw Mrs Sandra Thomas. Medd Mrs Thomas 'Bu cydweithio hapus rhwng y Pwyllgor Gwirfoddol, Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Awdurdod Iechyd. Mae'n argoeli'n dda ar gyfer y cynllun newydd.'

Ychwanegodd, 'Mi rown ni'r cynorthwyyr ar ben ffordd trwy eu dysgu sut i wneud tasgau fel codi pobl o'u gwla. Ni ddisgwylir iddynt wneud pethau cymhleth fel rhoddi injecsiyns ac ati.'

'Hoffwn gael llu o enwau trigolion Arfon sy'n barod i helpu. Y cyfan mae'n rhaid iddynt ei wneud yn y lle cyntaf yw cynnig eu henwau i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, eu doctoriaid, gweithwyr iechyd neu gorff gwirfoddol.'

Yn ogytal â chyfraniad Gwenlyn Parry, yn y noson lansio roedd sgyrsiau byr yn egluro natur y cynllun newydd. Am fwy o fanylion cysylltwch â Mrs Sandra Thomas, Ty'r Castell, Caernarfon. Ffôn: 4121, Est 2284.

CYMDEITHAS WYDDONOL GWYNEDD

Bydd cyfarfod cyntaf y tymor nos Fawrth, Hydref 4ydd a'r siaradwr fydd Mr Norman Closs-Parry yn traethu ar y testun 'I Gynnwrf Pry a Genwair'.

Mae rhywun sy'n sôn am 'gawio' plu, ac ysgol 'Brefail' yn siwr o fod yn ddifyr i wrnado arno. A does dim dwywaith nad oes gan Norman Closs-Parry, brodor o Lanberis, y ddawn i draethu yn ddifyr am bysgota. Bwriodd ei brentisiaeth ar llynnoedd Padarn a Peris, a dros y blynyddoedd daeth yn arbenigwr ar elfennau gwyddonol y grefft.

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLLEN
Llanberis 870484

- * Bysus o 12 i 53 sedd
- * Teithiau Lleol a Thramor
- * Gwaith Contract
- * Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

Gwyr hanes diddorol y Torgoch a dulliau'r chwarelwyr o'i ddal.

Mae ganddo farn bendant am helynt hogia'r canws. Felly, os am wybodaeth, trafodaeth a noson hwyliog, dewch draw i Adran Amaethyddiaeth y Brifysgol erbyn 7.30 nos Fawrth, 4ydd o Hydref, ac os am fwy o wybodaeth, ffoniwch 0286 830615.

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD
BANGOR 354646

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES
17 BRYN TIRION
PENISARWAUN
Ffôn: LLANBERIS 872421

HEN GYFARFODYDD

UNDEB LLENYDDOL
PENISA'RWAEN.

YN NGHAPEL BOZRAH.

Ddydd Gwener, Meh. 17, 1881.

TOCYN I'R HOLL GYFARFODYDD, 1s.

ORWIG ORCHESTRA

Mawrth 1981

Llywydd: — JOHN ROWLAND JONES

Hefyd gwasanaethir gan EOS MARCHLYN; WILLIAM R. WILLIAMS; DAVID WM. MORRIS; WM. R. ROBERTS, a'r DEINIOLLEN GLEE PARTY.

CYFELYDDDES: — KATE E. JONES.
Violinist: — FRED. JONES, Bangor. Harpist: — ARTHUR HUGHES.

Tocyn—1s.

Daeth dau docyn i'n sylw yn ddiweddar, a byddai'n ddiddorol cael gwybod a oes unrhyw un o'r darllenwyr a all daflu goleuni arnynt. Mae'r cyntaf yn docyn aelodaeth (?) Undeb Llenyddol Penisarwaen. Yn anffodus mae'r ail docyn wedi ei rwygo, ac y mae'r prif destun wedi ei golli.

Gellir darllen "Orwig Orch ..." arno, sy'n awgrymu Orwig Orchestra, ac y mae cyfeiriad hefyd at Eos Marchlyn a'r Deiniol Glee Party.

Dyddiad yr Undeb Llenyddol yw 1881. Nid oes dyddiad ar yr ail docyn.

SIMNEIAU GWael? CRACIAU? MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?

Cysylltwch â Dave Wood

'INSULAFUE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG

Ffôn: Llanberis 871376

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

**YSGOL YRRU
OFALUS**

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D

L

PRITCHARD

43 Glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112

Cymeradwyr gan yr Adran
Drafnidiaeth

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Gillian Morris, Annedd Wen, Talybont. Caernarfon 76075.

PLAID CYMRU: Yng nghyfarfod cyntaf y tymor fe gawn anerchiad gan Dafydd Whiteside Thomas, nos Fercher, Hydref 12 am 7.30 o'r gloch yn yr Ysgol Gynradd.

Nos Sadwrn, Tachwedd 5ed, trefnir noson tân gwyllt a choelcerth ar y Cae Chwarae am 6.00 o'r gloch. Mae gwahoddiad i'r holl bentrefwyr ymuno â ni i gael noson ddiogel, ond hwyliog. Bydd croeso i chi ddod a'ch cyfraniad o dân gwyllt (fireworks) i'r rhai fydd yn gyfrifol am eu tanio. Paratoir cwn poeth a diodydd am bris rhesymol. Cewch fwy o fanylion yn rhifyn nesaf yr Eco.

PWYLLGOR APÊL YR URDD: Yn fuan wedi Eisteddfod y Pentref a'i phrysurdeb fe gynhelir pwyllgor nesaf Apêl yr Urdd 1990. Cewch wybod y dyddiad eto. Fodd bynnag, apeliwn am well presenoldeb nag a gafwyd i'r pwyllgorau yn y gorffennol. Gobeithiwn drefnu gweithgareddau i godi arian at y targed lleol cyn y Nadolig.

TAITH GERDDED: Nos Iau, Awst 25ain, bu taith gerdded nodedig er budd Eglwys Sant Mihangel. Fe gasglwyd oddeutu £200 at y gronfa atgyweirio. Y cerddwyr oedd Miss Nicola Jones a Mrs B Jones, Tyddyn Corn; Miss G Griffith, Disgwylfa; Mrs E L Jones a Mr Len Jones, Lyndale; Mr a Mrs O E Evans, Monallt; Mr James Jones, Dwyros; Mr Arthur Jones, Hafan Elan a'r Parch Tegid Roberts, Arwel gyda pedwar ffrind. Ar ddiwedd y daith roedd lluniaueth wedi ei ddarparu yn yr Eglwys gan Mrs Margaret Jones, Dwyros a Miss C M Rowlands, Lleifior. Diolchodd Mrs B Jones, Tyddyn Corn i'r ddwy ac i'r rhai a roddodd y bwyd. I gloi y noson dywedodd y Parch Tegid Roberts air o weddi. Trefnwyd y daith gerdded gan Mr O E Evans, Monallt a Mrs D Jones, Hafan Elan.

DYDDIAD I'W GOFIO: Noson Goffi gyda byrddau gwerthu, nos Fawrth, Hydref 18fed yn yr Ysgol Gynradd, Llanrug, er budd Eglwys Sant Mihangel.

GWELLHAD BUAN: Dymuniadau gorau am adferiad iechyd llwyr a buan i Gareth Roberts, Crigyll (ymddangosodd ei lun yn y rhifyn diwethaf o'r Eco.) Derbyniodd Gareth aren newydd yn Ysbyty Manceinion ddydd Sul, Medi 18fed.

LLONGYFARCHIADAU a phob bendith i Mary a Meurig Parry, Bryn Golau, Stâd Minffordd, ar achlysur eu Priodas Arian, Hydref 5ed. Dymuniadau gorau oddi wrth Dwynwen a Steven, Tudur a Gareth a'r teulu oll.

CYDYMDEIMLO: Rydym yn cydymdeimlo â Mr Maldwyn Jones, Brynheli ar farwolaeth ei fam ym Mhenygroes.

YN YR YSBYTY: Mae nifer o drigolion y pentref wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar, sef Mr John Rowlands, Llys Forgan; Mr Robert Jones, Egryn Villa; Miss Greta Davies, Grassgarth; Mrs Jean Davies, Rhyd y Delyn a Mrs Myfi Roberts, Plas Tirion. Dymunwn wellhad llwyr a buan iddynt i gyd.

NSPCC: Dymuna Cangen Llanrug a'r Cylch o'r NSPCC ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd at y Sêl Cist Car, y Raffl a'r Daith Gerdded a gynhaliwyd ym mis Mehefin. Gwnaed elw o £701.39 at yr achos. Diolch am eich cefnogaeth. **DIOLCH:** Dymuna Nia, Rhandir Mwyn, Ffordd Crawia ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati tra y bu yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Rydym yn falch o glywed ei bod yn gwella.

DIOLCH: Mae John Rowlands, Llys Forgan, yn dymuno diolch o galon i'w deulu, cymdogion a chyfeillion am y llu cardiau ac am bob caredigrwydd a dderbyniodd tra y bu yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod gartref. Dymunwn wellhad buan iawn iddo.

DIOLCH: Dymuna Joyce Jones, 2 Bryn Fedwen ddiolch o galon i bawb am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac hefyd

ar ôl dychwelyd adref. Mae'n dda clywed fod Joyce yn gwella.

DIOLCH: Dymuna W.A a Gwladys Jones y Dalar Dêg ddiolch i gym-



Seindorf leuenctid Llanrug - enillwyr ym Mae Colwyn.

dogion a chyfeillion am y blodau a'r anrhegion a'r cardiau a dderbyniasont ar ddathlu eu priodas aur ar yr 20ed o Awst

CLWB 200 CLWB PEL-DROED LLANRUG:

Mehefin

£120: D L Davies, Banc y Midland, Caernarfon; £60: A Williams, Bryn Llan, Llanrug; £40: D A Jones, Minffordd, Llanrug; £20: H Oliver Jones, Eryri, Llanrug.

£10 i'r canlynol: D W Jones, Castle View, Llanrug; E Roberts, Chester House, Deiniolen; E Williams, Bush Rd, Felinheli; M Davies, Cwm-y-glo; N Griffiths, 5 Bro Rhyddallt, Llanrug; P Jones, 49 Bro Rhyddallt, Llanrug.

Gorffennaf

£40: S Parry, Glanffynnon, Llanrug; £20 E Roberts, Banc y Midland, Caernarfon; £10: P Jones, Bro Rhyddallt, Llanrug; £10: S Morris, Gwenmon, Llanrug.

Awst

£40: A Olsen, 11 Bryn Moelyn, Llanrug; £20: T Jones, Tirionfa, Gwalchmai; £10: A Morris, Becws, Cwm-y-glo; £10: B Parry, Banc y Midland, Caernarfon.

Os am ymaelodi, cysylltwch ag unrhyw aelod o'r pwyllgor neu William Pritchard, 8 Bryn Moelyn, Llanrug.

CYMDEITHAS LENYDDOL:

Cynhelir cyfarfod cyntaf tymor y Gymdeithas Lenyddol, Capel Mawr, nos Fercher, 12fed o Hydref yn y festri am saith o'r gloch, gyda noson o adloniant gan Lleisiau Mignedd. Croeso cynnes i bawb. Bydd y Gymdeithas yn cyfarfod ar nos Fercher yn ystod tymor 1988-89.

CYMDEITHAS UNDEBOL: Bydd tymor newydd y Gymdeithas Undebol yn cychwyn ar nos Fawrth, Hydref 18fed am 7.00 o'r gloch yn Festri Capel Pontrhythallt. Y gwr gwadd fydd Mr Owain Owain, Caernarfon. Mae croeso cynnes i gyn-aelodau ac aelodau newydd i ymuno am y tymor.

MERCHED Y WAWR:

Agorodd y tymor newydd ar Fedi 13 mewn dull gwahanol iawn i'r arfer. Aeth Miss Sidi Roberts a'r aelodau'n ôl i Gaernarfon y ganrif ddiwethaf. Cafwyd hanesion am arferion pobl y dref yn mynd i'r theatr, i gyngherddau, ciniawa ac yna i'r capeli. Daeth nifer o ffrindiau Miss Roberts gyda hi i gyflwyno y cyfan yn fyw iawn. 'Roeddynt wedi eu gwisgo yn nillad hardd y cyfnod hwnnw — dillad sydd wedi bod yn nheulu Miss Roberts erioed. Diolchwyd iddi gan Mrs J C Williams.

Anfonodd Mrs Ann Evans, llywyd newydd, gofion a fymuniadau gorau'r aelodau at Mrs Joyce Jones sy'n gwella ar ôl ei thriniaeth yn yr ysbyty. 'Roedd yr aelodau'n falch iawn fod Ann ei hun yn wel ar ôl ei thriniaeth hi-thau.

Paratowyd paned gan genod Penisarwaun sef Phyllis, Eileen, Myfanwy, Jean a Heulwen a diolchodd Mrs Lovatt iddynt. Mair Huws enillodd y raffl.

Ar Hydref 4 bydd y gangen yn ymweld â Theatr Gwynedd i weld Y Cylch Sialc. Mae'r tocynau ar gael gan Mrs Nan Humphreys, Pant Bryn Gwyn (Ffôn 5668).

HOME IMPROVEMENT CENTRE


FFORDD YR ORSAF, LLANRUG

Ffôn: C'fon 2122

ar gyfer...

Paent, Papur wal,	Anghenion Tŷ,
Anghenion addurno,	Garddio,
Coed, Tywod, Gro,	Hadau Unwin,
Brics, Blociau,	Hardware, nwyddau
a Sment,	Ironmonger
Offer plymio	Teganau

FFENESTRI UPVC DRYSAU MEWN GWYN NEU MAHOGANI



Esiamp! o bris a gosod

Crefftwy'r profiadol yn eu gosod
Ffoniwch am bris i

J R PRITCHARD, 14 Glanrafon, Bontnewydd

Ffôn: Caernarfon 3507 (dydd neu gyda'r nos)

Croesawn ymholiadau gan fasnachwyr

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, 'Glanrafon' (872275)

BINGO: Cynhaliwyd Noson Bingo yn y Ganolfan nos Wener, Medi 16. Gwnaed elw sylweddol tuag at gostau atgyweirio Capel y Tabernacl. Dymuna y gweinidog Parch Gwynfor Williams a'r swyddogion ddiolch am yr haelioni a phob cymorth a roddwyd i'r noson. Dyma enwau enillwyr y gwobrau: £15 Dafydd Williams; Nwyddau: Carys Jones; Nwyddau: Parch Gwynfor Williams; Glo: Mr Robin Price; Celfi Brecwast: Mrs Ware; Tatws: Mrs Dilys Jones; Gwin: Mr Gethin Jones, Dona Morris, Martin Parry, Arnold Hughes, Christine Jones, Delyth Morris, Mrs Megan Jones, Miss Nancy Jones, Mrs T Jordan, Mrs Morris Becws, Mrs Iris Rowlands, Mrs G Pritchard, Terry Williams, Carys Williams, Mrs Russell Rowlands.

NSPCC: Dymuna Cangen Llanrug a'r Cylch o'r NSPCC ddiolch o galon i bawb a gyfranodd at y Sêl Cist Car, y Raffl a'r Daith Gerdded a gynhaliwyd ym mis Mehefin. Gwnaed elw o £701.39 at yr achos. Diolch am eich cefnogaeth. **LLONGYFARCHIADAU** i Michael, 18 Dol Afon ar gyrraedd ei ben-blwydd yn un ar hugain oed ac i Medi, Bron Eryri ar gyrraedd ei phen-blwydd yn ddeunaw oed.

CLWB POBOL Y CWM: Croesawodd y Llywydd, Mr Llew Hughes, yr aelodau ar gychwyn tymor y gaeaf ac yn ôl yr arfer aildewiswyd y swyddogion presennol i weithredu am dymor ychwanegol. Yn anffodus, roedd rhai o'r aelodau yn absennol oherwydd gwaeledd, ond croesawyd Mr Hugh Pritchard yn ôl ar ôl ysbaïd o waeledd.

Rhoddodd Mr R H Parry sgwrs ddiddorol ar gasgliad o farddo-

niaeth ar 'Salmau Dafydd' a gyhoeddwyd yn 1603 gyda ail argraffiad yn 1827. Awdur y casgliad oedd yr uchelwr amryddawn o oes Elizabeth 1af, Capten William Middleton o Lansannan. Roedd yn llenor gwyb ac yn hyddysg mewn amryw o ieithoedd. Roedd ganddo hefyd gysylltiad â'r gwr hanesyddol Syr Francis Drake a orchfygodd llynges arfog y Sbaenwyr yn 1589. Mae'n amlwg fod gan Capten William Middleton ddylanwad cryf ar ei griw oherwydd ei safiad moesol.

Rhoddwyd y te gan Miss E Hughes a Mrs E Hughes a'r raffl, a enillwyd gan Mrs G Chick, gan Mrs H M Roberts. Diolchodd y llywydd i Mr R H Parry am ei sgwrs ddiddorol.



YR YSGOL FEITHRIN: Cynhaliwyd Taith Gerdded nodedig ar Fedi 10fed at gronfa yr Ysgol Feithrin.

Enillwyr y raffl oedd: Bocs Nwyddau: Delyth Roberts; Potel win: Gareth Price; Potel win: June Steele; Bocs Siocled: Keith Williams; Bocs Bisgedi: Arwyn Jones.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i Mr


Lloyd Owen a Mr Llew Hughes am eu cymorth, hefyd Mrs Gwyneth Roberts a Mrs Avril Jones am ofalu am y raffl.

Yn ystod mis Gorffennaf aeth y plant am drip i Butlins, Pwllheli a mwynhawyd y diwrnod yn fawr. Diolch i Anti Lou, Anti Linda ac Anti Chris am fynd gyda hwy a gofalu amdanynt. Dyma lun o'r plant cyn cychwyn ar y trip.

ADNODDAU DWYIEITHOG 'YN GRYNO'

Llyfryn o adnoddau parod dwyieithog, datblygiadau addysg a chyr-siau dwyieithog, adroddiadau ac ymchwil diweddar yn ymwneud â'r iaith Gymraeg yw 'Yn Gryno', a gyhoeddir gan fudiad Cefn gyda nawdd y Cynllun Creu Gwaith. Mae'r golygydd, Linda Williams, yn cydnabod mai dim ond rhan fechan o'r darlun sy'n cael ei gynnwys yn y rhifyn cyntaf, ac yn apelio am wybodaeth oddi wrth unrhyw un sy'n cynhyrchu nwyddau dwyieithog, yn cynnig gwasanaeth dwyieithog, neu'n gwneud ymchwil ar yr iaith Gymraeg ar hyn o bryd.

Bydd y rhifyn nesaf o 'Yn Gryno' yn ymddangos ymhen deufis. Os am ragor o wybodaeth cysyllter â



Cefn, 1 Stryd y Castell, Caernarfon (Ffôn: Caernarfon 5664)

RHODDION

£10: Mrs Ellen Williams a Buddug, 2 Y Bwthyn, Deiniolen

£5: Mr a Mrs David Griffiths, Creigle, Dinorwig.

£3: Mr a Mrs John M Jones, 14 Rhes Marian, Deiniolen;

£2: Mr a Mrs J Pritchard, 86 Pentre Helen, Deiniolen; Mr a Mrs David Wyn Jones, 3 Rhydfadog, Deiniolen; Carys a Rolant, 7 Maes Gwylfa, Deiniolen; Wendy Jones, 11 Stryd Newydd, Deiniolen.

GERAINT OWEN

Gosodwr carpedi a phob math o lorïau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR

Ffôn:
Waunfawr 552

BRYN (B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG

Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri, Drysau, Grisïau neu unrhyw fath o gynnyrch coed. Y coed meddal wedi derbyn triniaeth arbennig i wneud iddynt bara.

YN EISIAU

Teganau mewn cyflwr da ar gyfer Ysgol Feithrin Deiniolen.

Cysyllter â:

Nêst Efans

Afon Goch

Deiniolen

Ffôn: 870068

AR WERTH

AR WERTH: Bynar Glo Dur yn dal 3 cant o lô yn llawn o anthracite, £30 Ffôn Y Felinheli 670687 ar ôl 6 o'r gloch.

CABS LLANRUG



C'FON 5951

Prisiau cystadleuol.
Gwaith contract
pell ac agos

PRIF GYNRYCHIOLWYR



YNG

NGWYNEDD

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbrecio
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partïau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

CYDYMDEIMLO: Yn frawychus o sydyn ddydd Gwener Awst 25 bu farw Mrs Joyce Pritchard 11 Bro Rhos. Estynnir pob cydymdeimlad a'r teulu yn eu profedigaeth.

MWY NAG AUR: Ers misoedd bel-lach mae nifer o blant y pentref wedi bod yn ymarfer ar gyfer perfformio y Ddrama Gerdd Mwy nag Aur sef stori Mari Jones a'r Beibl yn Neuadd Pritchard Jones Bangor, Nos Wener a Nos Sadwrn Hydref 14 ag 15. Bydd y Côr Ieuencid Cyd-enwadol Ysgolion Sul Arfon a Chôr Cymysg Bro Dyfnan Ynys Môn yn perfformio'r ddrama dan arweiniad y cynhyrchydd Robin Jones Stad Eryri.

Pris y tocynnau ydi £1.50 i oedolion a £1.00 i blant. Mae bws wedi ei drefnu o Fethel i berfformiad nos Wener, bydd yn cychwyn o'r ysgol am 6.30pm. Gellir cael tocynnau i berfformiad nos Wener neu nos Sadwrn gan Mrs Rita Williams.

EISTEDDFOD **GADEIRIOL**
BETHEL: Mae holl gyfansoddiadau Llên a Barddoniaeth yr Eisteddfod i fod yn llaw yr Ysgrifenydd Llên ac Adrodd, Mrs Rita Williams, Elan, 4 Tan y Cae, erbyn Hydref 22 mewn amlen wedi ei selio.

PLAID CYMRU: Nos Wener Medi 9ed agorwyd tymor y Gaeaf gyda Helfa drysor yn cychwyn o'r Neuadd. Y cyntaf i gyrraedd pen y daith yn y Ty Uchaf, Talybont ag enillwyr yr Helfa oedd Mr a Mrs Mair Read a Meilir. Diloch i Sion Williams am drefnu'r noson.

Y NEUADD: Nos Wener Medi 16 cynhaliwyd cyfarfod o Bwyllgor Y Neuadd. Etholwyd Osgar Evans yn Gadeirydd, Mr Goronwy Jones yn Is-Gadeirydd, Mrs Olwen Williams yn Ysgrifenyddes a Mr Gwyndaf Williams yn Drysorydd.

Gan fod angen codi swm sylweddol o arian i ail-adeiladu'r Neuadd penderfynwyd y bydd angen pwyllgor gweithgar a pasiwyd i anfon at holl gymdeithasau'r pentref i ofyn iddynt ddewis dau gynrychiolydd i weithredu ar Bwyllgor y Neuadd.

Penderfynwyd cynal disgo Nos Wener Tachwedd 18, a cytunwyd i drefnu Gyrfa Chwist Nadolig a hefyd gofyn i Siôn Corn ddod i Fethel ychydig ddyddiau cyn y Nadolig. Cafwyd adroddiad hefyd fod y gangen leol o Ferched y Wawr wedi penderfynu cyfrannu elw Dathliad y Nadolig i gronfa'r Neuadd. Cytunwyd y byddai yn syniad da i wahodd pentrefwyr sydd wedi symud o Fethel i fyw i anfon cyfraniad i'r gronfa. A gofyn i unrhyw un roi enwau cyn-bentrefwyr i'r ysgrifenyddes fel y gellir cysylltu a hwy.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Nos Fercher 2ail yn y Neuadd.

DOSBARTH W.E.A.: Nos Iau Medi 22 cynhaliwyd cyfarfod cyntaf dosbarth Cymdeithas Addysg y Gweithwyr yn yr ysgol. Cafwyd noson ddiddorol iawn dan ofal Geraint George, Erw Bian. Dangoswyd sleidiau o wahanol ardaloedd yn Eryri yn dangos

daearyddiaeth naturiol yr ardal, a hefyd dylanwad dyn cyntefig a datblygiadau diwydiannol ar yr ardal.

Bydd y dosbarth yn cyfarfod bob wythnos yn yr ysgol ac estynnir croeso i unrhyw un sydd a diddordeb ym mywyd a natur Eryri i ymuno a'r dosbarth.

YN 18 OED: Llongyfarchiadau i Helen Jones, Garreg Goch ar ddathlu ei phenblwydd yn 18 oed ar Fedi 6ed.

Dymuniadau gorau i Alun Willimas, 32 Bro Rhos fydd yn dathlu ei benblwydd yn 18 oed ar y 6ed o Hydref, i Amanda Owen 10 Rhoslan fydd yn dathlu ei 18 oed ar yr 11eg ac i Nicola Davies 20 Bro Rhos fydd yn 18 ar yr 2il.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD DYFFRYN NANTLLE AC ARFON: Nos Lun Medi 19 cynhaliwyd pwyllgor apêl Bethel yn Festri Bethel. Adroddwyd fod y pentref wedi cyrraedd y nod yn barod ond penderfynwyd cadw'r gronfa yn agored fel y gall unrhyw un fyddai'n dymuno, gyfrannu eto.

Os oes unrhyw un heb gael cyfle i gyfrannu byddai Mr a Mrs Griffith, Llwyn Eithin neu Mr Goronwy Jones, Glan Gors yn falch iawn ou derbyn.

Penderfynwyd trefnu stondin yn y Sioe Hen Beiriannau yng Nglynllifon ddydd Sadwrn Medi 24.

CANIADAETH Y CYSEGR: Nos Sul Medi 18 recordiwyd gwasanaeth o Ganiadaeth y Cysegr yn nghapel Cysegr. Roedd y canu dan arweiniad Mr Hugh Hughes gyda Mrs Glenys Griffiths wrth yr organ.

Bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarlledu dros yr Wyl Diolchgarwch.

PWYSIG IAWN! CYFARFOD CYHOEDDUS

i drafod
**YMDDYGIAD
PLANT AC
IEUENCTID
BETHEL**

yn y Neuadd Goffa
nos Lun, Hydref 10
am 6.45 o'r gloch

'MWY NAG AUR' STORI MARI JONES AR GÂN



Dyma nhw, Côr Ieuencid Cyd-enwadol Ysgolion Sul Arfon a Chôr Cymysg Bro Dyfnan, Môn, yn ymarfer drama gerdd Roger Jones yng Nghapel Seilo, Caernarfon. Bydd y perfformiad yn Neuadd Pritchard Jones, Bangor ar Hydref 14 a 15. Yr Arweinydd/Gynhyrchydd yw Robin Jones, Bethel.

**GWILYM H.
WILLIAMS**


**BRYN DAIRY
2 BRYNHAFRYD
BETHEL**

Ffôn
Port Dinorwig 670786



Llefrith
Llaeth Porfa
Llaeth heb Hufen
Wyau, Tatws
Diodydd
Ffrwythau

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



**Antiques
Ivy Cottage
BETHEL**

Ffôn:
Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol



Am wledd flasu
dewch at
Gwyndaf a Ceris
Williams

**SIOP
SGLODION
BETHEL
CHIP SHOP**

Archebwch
dros y ffôn!
Portdinorwig 670963
Cartref 670170

Dyddiadur y Mis

Hydref

1. **Sadwrn:** CAERNARFON: Gwyl Werin
2. **Sul:** DEINIOLLEN: Cymdeithas y Beiblau. Cyfarfod Blynnyddol yng Nghapel MC Brynrefail am 2.00 o'r gloch. Cymanfa Ganu yng nghyfarfod yr Hwyr am 6 o'r gloch.
4. **Mawrth:** CYMDEITHAS WYDONOL GWYNEDD: Adran Amaethyddiaeth y Brifysgol, Bangor. Mr Norman Closs-Parry ar y testun 'I gynnwrf Pry a Genwair'.
LLANRUG: Merched y Wawr. Ymweliad â Theatr Gwynedd i weld 'Y Cylch Sialc'. Bws yn gadael y Sgwâr am 6.45. Am fwy o fanylion a thocynnau, ffoniwch Nan Humphreys, Caernarfon 5668.
5. **Mercher:** DEINIOLLEN: Sefydliad y Merched.
6. **Iau:** YR ARDAL: Noson Goffi flynyddol at Ymchwil y Galon yng Ngwesty'r Royal, Caernarfon.
BETHEL: Dosbarth WEA.
7. **Gwener:** LLANBERIS: Te yr Henoed.
LLANBERIS A'R CYLCH: Clwb Eryri yng Ngwesty Gwynedd, 7.30 pm. Ffilm - Yr Etifeddiaeth.
LLANBERIS: Bingo yng Ngwesty Dolbadarn. Elw at Urdd Sant Ioan.
8. **Sadwrn:** LLANRUG: Eisteddfod y Pentref yn Neuadd Ysgol Brynrefail.
WAUNFAWR: Eisteddfod y Pentref yn y Ganolfan am 12.30 o'r gloch.
12. **Mercher:** LLANRUG: Plaid Cymru. Anerchiad gan Dafydd Whiteside Thomas yn yr Ysgol Gynradd am 7.30 o'r gloch. Croeso i bawb.
- LLANRUG: Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr. Noson agoriadol yng nghwmni Lleisiau Mignedd.
13. **Iau:** BETHEL: Dosbarth WEA.
- 14 a 15. **Gwener a Sadwrn:** YR ARDAL: Perfformiad o'r Ddramagerdd 'Mwy nag Aur' gan blant Ysgolion Sul cylch Arfon a Chôr Bro Dyfnan Ynys Môn yn Neuadd Pritchard Jones, Bangor am 7.30 pm. Arweinydd: Robin Jones,

Bethel.

16. **Sul:** LLANRUG: Capel Mawr. Gwasanaeth Diolchgarwch y plant am 10 y bore.

TAN Y COED: Gwasanaeth Diolchgarwch y plant am 2 o'r gloch.

17. **Llun:** DEINIOLLEN: Merched y Wawr.

PENISARWAUN: Eglwys Santes Helen. Gwasanaeth Diolchgarwch 10.30 y bore a 4.30 y prynhawn.

TAN Y COED: Diolchgarwch. Pregeth gan y Parchedig Gareth Maelor Jones am 7.00 o'r gloch.

18. **Mawrth:** PENISARWAUN: Clwb yr Heulwen. Noson yng nghwmni Mrs Nansi Jones.

PONTRHYTHALLT: Cymdeithas Undebol. Sgwrs gan Mr Owain Owain, Caernarfon.

LLANRUG: Noson Goffi a Bwrdd Gwerthu yn yr Ysgol Gynradd. Elw at Eglwys Sant Mihangel.

19. **Mercher:** YR ARDAL: Cymdeithas Hanes Bro Eco'r Wyddfa. Oriol Eryri am 7.15 o'r gloch.

20. **Iau:** BETHEL: Dosbarth WEA.

21. **Gwener:** YR ARDAL: Yr ysgolion yn cau am wyliau Diolchgarwch.

LLANBERIS: Te yr Henoed.

WAUNFAWR: Sefydliad y Merched. Cyngerdd.

22. **Sadwrn:** WAUNFAWR: Sêl Cist Car ym maes parcio y Ganolfan 10.30-12.00 o'r gloch. Yr elw at Gronfa Apêl yr Urdd.

BETH AM DDOD I GYSTADLU? I EISTEDDFOD DYFFRYN OGWEN

Manylion:

Medwyn Williams

Bethesda 600346

Neu beth am ddod i
fwynhau'r wled yn
Ysgol Dyffryn Ogwen
Nos Wener, Tach 11
am 6.30pm
a Dydd Sadwrn, Tach
12 am 12.30 a 6.00

LLYFRAU CYMRAEG NEWYDD

James yr Injan Goch a'r Tryciau Trafferthus

Pysl yr Injan Fach yn Dysgu Gwers

addas. Jini Owen a Brenda Wyn Jones o waith W Awdry Cyhoeddiadau Mei £1.75 yr un Dau Lyfr Sbonc i'r plant lleiaf yn adrodd hanes anturiaethau James a Pysl (Cyfres Tomos y Tanc).

Byddin y Brenin: Cymru a'i Chrefydd yn y Rhyfel Mawr

gan Dewi Eurig Davies

Ty John Penri £6.50

Llyfr sy'n astudio ymateb Cristnogion ac eglwysi Cymru i'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Gramadeg Groeg y Testament Newydd

gan Eryl Wyn Davies

Gwasg Prifysgol Cymru £9.95

Astudiaeth o ramadeg Groeg y Testament Newydd ar gyfer myfyrwyr yn yr ysgolion a'r colegau sy'n dilyn eu cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Pysgodyn Cochyn Bach

gan Hilma Lloyd Edwards

Nofel fer ar gyfer plant 6-7 oed.

Rhestr Testunau Eisteddfod

Genedlaethol Dyffryn Conwy a'r

Cyffiniau, 1989

Pris £2.00

Nadolig Fel Hynny

Gwasg Carreg Gwalch £2.50

gan T James Jones

Drama hir.

Tirluniau o Forgannwg:

Y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg gan Donald Moore

Gwasanaeth Archifau Morgannwg £2.75

Llyfr o luniau lliw a du-a-gwyn yn dangos tirluniau o Forgannwg gan artistiaid o'r 19eg ganrif.

Gwawr

gan Ivor Owen

Gwasg Gomer (CBAC) £3.25

Cyfrol o storïau iasoer ar gyfer dysgwyr hyn.

Bryniau'r Glaw

gan Ednyfed Thomas

Gwasg Pantycelyn ar ran Bwrdd y Genedlaeth £5.95

Y gyfrol gyntaf o hanes cenhadaeth dramor Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

Corwynt

gan Angharad Tomos

Y Lolfa £1.65

Rhif 11 yn y gyfres boblogaidd hon i blant bach (Cyfres Rwdlan)

Castell Sain Ffagan a'i Drigolion

gan Eurwyn Williams, cyf. Mary Wiliam

Amgueddfa Genedlaethol Cymru £2.50

Hanes Castell Sain Ffagan a'r bobl a fu'n byw ynddo ar hyd y blynnyddoedd.

O Gysgod y Bannau

gan John Edward Williams £2.50

Cyfrol o ysgrifau a cherddi.

Un o gartrefi brafia'r fro CARTREF PRESWYL HENOED



BRON ERYRI

LLANBERIS, Ffôn:
870142 neu 870391

PERCHENNOG

MRS. EIRIAN MALI S.R.N.

- Stafelloedd sengl a dwbl
- Gofal 24 awr
- Gwres canolog trwy'r adeilad
- Yr holl staff yn siarad Cymraeg
- Golygfa hardd
- Liffat bob stafell sy' ddim ar y llawr gwaelod
- Rhagofalon tân priodol
- Lolfa teledu lliw
- Pwyntiau teledu ym mwyafrif y lloffttydd
- Bath-medic

Cofrestrwyd gan Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd

Y GLORIAN

Tŷ Birmingham, 6 Stryd Goodman

LLANBERIS

Arbedwch bunnoedd ar eich bil siopa wythnosol. Dewch i weld ein amrywiaeth eang o fwydydd
Siwgr, Cawl, Blawd, Cnau, Pasta, Fferins, Diodydd, Ffrwythau Sych, Grawnfwydydd etc.

CEWCH BWYSO EICH BWYD EICH HUN YN ÔL EICH ANGEN

AR AGOR BOB DYDD 9-8pm

CHWARAEON

RHEDEG DROS GYMRU

Fe ddewiswyd dau o Lanrug i gynrychioli eu gwlad ym mhen-campwriaethau Cwpan y Byd mewn rasio dros Fynydd, Ffos a Ffridd (Fell Running) yng Ngheswick ar y 15fed a'r 16eg o Hydref.

Yn y dosbarth i ieuencid y bydd Paul Grant yn cystadlu, ac fel y gwyddom, nid dyma'r tro cyntaf iddo gael ei anrhydeddu â'r fest goch.

Fel pêl-droediwr yr adnabyddir Gwynfor Owen, Afon Rhos ym myd chwaraeon; bu'n chwarae i Bwllheli, Bethesda a Llanrug ymysg eraill. Mae'n 34 oed bel-

lach a'r penderfyniad i gystadlu yn rās yr Wyddfa rhyw ddeng mlynedd yn ôl a greodd y did-dordeb mewn rhedeg ynddo.

Daeth yn 3ydd yn y dosbarth i redwyr lleol ynddi eleni, ac yn ddiweddar hefyd fe enillodd rās 10 milltir Pwllheli, dod yn ail yn rās Rhostryfan ac yn 3ydd ar Elidir.

Bydd yn un o 4 yn nhîm Cymru yn y rās 14 km.

Llongyfarchiadau iddo ar ennill ei fest gyntaf, a phob lwc i'r ddau ohonynt yn eu gwahanol gystadleuthau.

ANRHEGION I'R CLWB

Bu i glwb pêl-droed Llanrug elwa o garedigrwydd dau wr busnes lleol yn ystod y mis, sef Mr Tony Roberts, Tafarn Penbont a Mr Dennis Pritchard, Perchennog Ysgol Yrru Ofalus.

Tony yw Llywydd y Clwb ac fe gyflwynodd ddwy bêl-droed iddynt. Yn y llyn gyferbyn gwelir ei fab, Michael, yn eu trosglwyddo i Dafydd Owen, rheolwr y Clwb ac i'r Capten, Selwyn Allsup.

Fe gyflwynodd Dennis ddillad i'r tîm dan 16 oed a'r enw Safe Driving School yn amlwg ar y crysau. Gweler ddau aelod o'r tîm, sef Iestyn Roberts ac Ian Parry yn eu derbyn ganddo yn y llun isod, ac oddi tano, yr hogia

fu'n cynrychioli'r clwb yn erbyn tîm y Morfa, Caernarfon, gyda'u rheolwr, G P Jones.



Carfan y tîm dan 16 yw: Dylan Hughes, Iestyn Roberts, Bryn Jones, Cemlyn Jones, Ian Parry, Iwan Llyr Roberts, Kevin W Williams, Bedwyr Evans, David Ellis, Gareth Davies, Ian Roberts, Kevin Davies, Alun Williams, Kevin Tame, Robert Jones, Huw Williams, Dyfed Whiteside Thomas a Sion Roberts.

PYSGOTA Adroddiad H.P. Hughes

Does dim dwywaith nad dyma'r tymor gorau am eogiaid ar y Seiont ers diwedd y chwedegau, gyda'r rhan o'r afon rhwng Pont Rug a Chrawia yn ildio y rhan helaethaf o'r helfa. Mae'n siwr fod yn agos i ddau gant wedi dod i'r rhwyd a hanner y rhain yn dod o'r darn yma, y gweddill o ardaloedd Caernarfon a Llanrug.

Deallaf i'r canlynol fod yn llwyddianuss: Steven a James Carr, Llanrug (10 a 5), y mwyaf tua 12 pwys i Steven; Islwyn Humphreys, Llanrug (2), y mwyaf yn 8 bwys; Emyr Owen a'i frawd, Dylan (12 a 3), y mwyaf yn 15 pwys i Emyr; Goronwy Morris, Llanrug, un am 8 pwys; Len Parry, Brynrefail, (2) a'r mwyaf yn 7 bwys; Thomas J Thomas, Cwm-y-glo (2), y mwyaf yn 9 pwys; T Christy, Groeslon (5), a'r mwyaf yn 15 pwys; Elwyn Williams, Pentre Berw, un am 15 pwys; Jim Parry, Pentre Berw, un am 16 pwys a hanner; Merfyn Harris, Felinheli (6), y mwyaf yn 18 pwys a hanner; Tony Brown, Caernarfon (4), y mwyaf yn 10 pwys; Jim Lovell, Caernarfon (2), y mwyaf yn 14 pwys a Clifford Thomas, Felinheli, un am 14 pwys.

Clywais hefyd fod R Brinley, tra yn aros gyda'r teulu yn Nhregarth, wedi codi tocyn wythnos, ac yn ystod ei ymweliad cafodd 6, oddeutu 7 bwys yr un.

Er fod y rhediadau o Sewin i'r Seiont wedi bod yn arbenig o dda, ni ddaeth llawer i'r rhwyd ym mro'r Eco. Clywais fod Ron Thomas, Llanberis wedi cael dau

oddeutu 2 bwys un noson. Beth wnaeth iddo fynd a nhw i'r Felinheli tybed. Wedi colli ei ffordd oedd o, ynteu eisiau dangos i Clifford ei frawd pwy yw'r sgotwr gorau?

Ni chlywais am lawer wedi eu dal ar y Llyfni, ac mae llawer yn cwyno fod gormod o sgota gyda chynthron ar byllau isaf yr afon. Y drwg gyda'r math yma o sgota yw fod nifer fawr o bysgod bach yn cael eu bachu, ac mae hyn yn niweidiol i ddyfodol y Sewin a'r Eog. Bydd yn rhaid cadw golwg barcud ar y sefyllfa.

Cafwyd tymor llwyddiannus hefyd ar afon Gwryfai, gyda Sewin da yn cael eu glanio, y mwyaf y clywais i amdano oedd un 6 phwys a hanner i Gwynndaf Jones, Bethel.

Yn ystod Awst penderfynodd Pwyllgor Gwaith y Gymdeithas ddechrau Clwb 100. Bu mor llwyddiannus nes fod 200 bellach wedi ymaelodi.

Llongyfarchiadau hefyd i Dewi Jones, Cenarth, Bethel, am ennill cystadleuaeth i'r anabl a gynhaliwyd gan Glwb Pysgota Llangollen ar y Ddyfrdwy ar yr 20fed o Awst.



CRICEDWYR YSGOL BRYNREFAIL

Mae nifer o ddisgyblion yr ysgol wedi bod yn chwarae criced i dîm ieuencid Fron Dinas yn ystod yr haf. Iestyn Roberts o Llanrug oedd capten y tîm ac fe gafwyd tymor digon llwyddiannus. Roeddynt yn 3ydd yn y gynghrair ac fe gyrhaeddodd y bechgyn rownd derfynol y cwpan ond yn anffodus colli fu eu hanes yn erbyn Bangor.

Y bechgyn eraill fu'n chwarae

i'r tîm oedd Chris Tilston (Llanrug) sydd hefyd wedi chwarae nifer o weithiau i dîm cyntaf y clwb yn ogystal â helpu'r ail dîm i gipio pencampwriaeth eu hadran. Chris Hobby a Barry Roberts (Cwm-y-glo), Alan Pritchard (Nant Peris), Mark Williams, Edward Rogers, Dylan Parry (Llanberis), Nicky Cropper, Ian Parry, Wyn Parry, David Gwyn (Llanrug).

CALYNIADAU PÊL-DROED Y MIS CYNGHRAIR GWYNEDD

Llanrug	Llanberis
Machno 2 Llanrug 1	Llanberis 0 Llanerchymedd 1
Machynlleth 4 Llanrug 2	Llanberis 3 Blaenau 2
Blaenau 1 Llanrug 1	Llanberis 2 Nefyn 1
Penrhyn 1 Llanrug 2	Penrhyn 1 Llanberis 1
Llanrug 6 Penrhyn 0	
Llanrug 1 Llangefni 2	
	Llanberis 4 Llanrug 2

CYNGHRAIR SAIN

Llanberis	Llanrug
Bangor City 7 Llanberis 4	Llanrug 2 C'fon Boro 1
Bro Lleu 2 Llanberis 2	Bro Lleu 0 Llanrug 3
Pwllheli 4 Llanberis 1	Llanrug 3 Porthmadog 1
	Llanbedrog 4 Llanrug 5
	Llanberis 0 Llanrug 2
Deiniolen	
Deiniolen 1 Porthmadog 2	C'fon Boro 3 Deiniolen 0
Deiniolen 1 C'fon Boro 2	Deiniolen 2 Nantlle Vale 3